Mae cyfarfodydd gyda gweision sifil o'r ddwy lywodraeth yn parhau ac mae eglurder yn cael ei geisio ynghylch y disgwyliadau. Mae swyddogion yn y ddau awdurdod yn cydweithio'n agos ac mae cynnydd yn cael ei sicrhau. Trefnir gweithdai i ystyried y manylion gydag Aelodau. Bydd y gweithdai yn cynnig cyfle i archwilio rhestr fer y prosiectau hefyd. Nodwyd y byddai angen cynnal sesiwn a thrafodaeth debyg gyda Grŵp y Strategaeth Economaidd.

Cytunodd y Bwrdd geisio Cytundeb Bargaen Lawn erbyn yr hydref 2021.

Cytunwyd y caiff cyfarfod cabinet ar y cyd anffurfiol ei drefnu ddiwedd fis Gorffennaf fel gweithdy i'r Aelodau er mwyn iddynt drafod y cynigion sy'n dod i'r amlwg, ynghyd â thrafodaeth bellach gydag ESG am eu mewnbwn a'u gweithgarwch ymgysylltu gyda'r broses.

6.	<b>UNRHYW FATER ARALL</b>
----	---------------------------

Dim.

7.	<b>DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF</b>
----	------------------------------------

29 Medi 2021 – Rhith  
10 Rhagfyr 2021 – Rhith

**Y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris  
Cadeirydd**

8.	
9.	

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



**CYNGOR SIR CEREDIGION****Adroddiad i'r:** Cabinet**Dyddiad y cyfarfod:** 6 Gorffennaf 2021**Teitl:** Ffosffadau ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi**Pwrpas yr adroddiad:** Diweddarau'r Cabinet mewn perthynas â Ffosffadau o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi, a gofyn am Bwerau Dirprwyedig i benderfynu ar Geisiadau Cynllunio a fyddai'n effeithio'n andwyol ar integreidd yr Ardal Cadwraeth Arbennig.**Er:** Penderfyniad**Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:** Y Cyngorydd Rhodri Evans, Economi ac Adfywio

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i ddatblygu dim ond os yw'n ddatblygu cynaliadwy sy'n cynnwys mesurau perthnasol sy'n diogelu'r amgylchedd.

Mae ansawdd yr amgylchedd naturiol yn ein hardal o safon arbennig o uchel. Mae Afon Teifi yn Ardal Cadwraeth Arbennig. Yn yr ardal hon mae amryw o leoliadau o arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol i fywyd gwylt. Felly mae Afon Teifi wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig o dan Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'i diwygiwyd ("Y Rheoliadau Cynefinoedd").

Yn ddiweddar, cafodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol lythyr gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y lefelau uchel o ffosffadau yn afon Teifi. Mae'r un llythyr hefyd wedi'i anfon at yr Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Nghymru mewn perthynas â'r Teifi yn ogystal â chyrrff dŵr eraill Ardal Cadwraeth Arbennig.

Yn sgil Dyfarniad Ilys (a elwir yn "Achos yr Iseldiroedd"), mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyngori Cyngor Sir Ceredigion, yn sgil cyflwr anffafriol Ardal Cadwraeth Arbennig afon Teifi, cyn penderfynu ar gais cynllunio a allai arwain at ffosffadau ychwanegol yn y dalgylch, y dylai awdurdodau cymwys gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn 'awdurdod cymwys' o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, ac felly'n golygu ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor asesu effeithiau posibl prosiectau a chynlluniau, ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol sy'n cynnwys Ardal Cadwraeth Arbennig afon Teifi. Yn ei rôl fel awdurdod cymwys, rhaid i'r cyngor gynnal 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' ar unrhyw gais cynllunio perthnasol sy'n dod o fewn y ffiniau a'r dalgylchoedd. Lle mae 'Effaith Arwyddocaol Debygol', rhaid i'r cyngor gynnal 'Asesiad Priodol' er mwyn penderfynu, gyda sicrwydd gwyddonol, na fyddai dim 'Effaith Niweidiol ar Integreidd' ar y safle dynodedig o'r cynllun neu'r prosiect, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill.

Mae'r cyngor yn ystyried hyn wrth ystyried a ellir rhoi caniatâd cynllunio. Os na ellir profi na fyddai effaith andwyol ar integreidd, yna ni ellir rhoi caniatâd cynllunio heb ystyriaeth lem bellach o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae Cyfoeth Naturiol

## Tudalen 54

Cymru yn ymgynghorai statudol ar asesiadau priodol ac mae'n rhoi cyngor i awdurdodau cymwys mewn perthynas â safleoedd a ddynodwyd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried y cyngor a roddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru wrth wneud penderfyniadau cynllunio (ar gyfer datblygiadau unigol a chynlluniau datblygu lleol (CDLI)).

Mae'r mathau o ddatblygiad y mae'r gofyniad hwn yn effeithio arnynt yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Unedau preswyl newydd - gan gynnwys llety i dwristiaid, safleoedd/lleiniau sipsiwn a theithwyr, llety i fyfyrwyr, cartrefi gofal ac ati.
- Datblygiadau masnachol - arwynebedd llawr masnachol newydd gan gynnwys estyniadau, newid defnydd o un busnes i'r llall lle mae cynnydd mewn gweithwyr a/neu ddefnydd a fyddai'n effeithio ar ddŵr gwastraff.
- Datblygiad Amaethyddol - ysguboriau ychwanegol, storffeydd slyri ac ati.
- Hysbysiadau Blaenorol o ddatblygiad amaethyddol lle, o ganlyniad i'r datblygiad, mae maint neu grynoadau'r dŵr gwastraff a ollyngir yn cynyddu.
- Treulwyr Anaerobig
- Atyniadau twristiaeth
- Datblygu a ganiateir i eiddo sy'n bodoli eisoes (e.e. estyniadau) sy'n cynyddu maint y dŵr budr sy'n draenio (e.e. am fod rhagor o bobl yn byw yno).

Mae cyngor pellach gan Gyfoeth Naturiol Cymru (02/05/21) yn awgrymu y dylid cynllunio gweithfeydd Trin Carthion Preifat sy'n gollwng dŵr gwastraff domestig i dir a adeiladwyd i'r Safon Brydeinig berthnasol fel bod;

- Y cae draenio wedi'i leoli mwy na 40m o unrhyw nodwedd ddŵr wyneb fel afon, nant, ffos neu ddraen, **a**
- Bod y cae draenio wedi'i leoli mwy na 50m o ffin yr Ardal Cadwraeth Arbennig, **a**
- Bod uchafswm y gyfradd gollwng ddyddiol yn llai na 2 fetr ciwbig
- Hefyd, er mwyn sicrhau nad oes dim effaith gyfunol sylweddol o ran prosiectau, dylai'r gollyngiad i'r ddaear fod o leiaf 200m o unrhyw ollyngiad arall i'r ddaear. Ni ddylai dwysedd y gollyngiadau i'r ddaear hefyd fod yn fwy nag 1 am bob 4 hectar (neu 25 y km<sup>2</sup>)

Y mater arall a godwyd, ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn aros am eglurhad yw'r rheidrydd i ddad-slwtsian gweithfeydd trin carthion preifat, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i gludwyr gwastraff ollwng y slwtsh yng ngweithfeydd trin carthion Dŵr Cymru, ond nid oes dim gweithfeydd trin carthion preifat o fewn Ceredigion sydd â'r cyfleusterau stripio ffosffad angenrheidiol, ar wahân i Landdewibrefi sydd ond dros dro yn meddu ar gapasiti ar gyfer hyd at 5 uned, felly mae gollwng i weithfeydd trin carthion preifat Dŵr Cymru yn cyfrannu at effeithiau niweidiol ffosffadau yn Ardal Cadwraeth Arbennig afon Teifi.

### **Y sefyllfa bresennol (25/05/21)**

Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol 45 o geisiadau na ellir eu penderfynu oherwydd y mater uchod, o'r 45 cais y maent yn cynnwys 47 annedd, a 22 defnydd arall, ac o ganlyniad mae angen gwrthod y ceisiadau, ond ar hyn o bryd nid oes gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio'r pwerau dirprwyedig i wrthod, ac ar ben hynny ni all Aelodau Lleol ofyn bod ceisiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i'w penderfynu, gan nad oes

## Tudalen 55

gwybodaeth ddigonol i gefnogi cynnig a byddai penderfyniad i gymeradwyo yn arwain at benderfyniad anghyfreithlon.

	<b>Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam</b>	Ddim yn Ofynnol
<b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b>	<b>Crynodeb: Hirdymor: Cydwethio: Cynnwys: Atal: Integreiddio:</b>	
<b>Argymhelliad:</b>	Cymeradwyo rhoi Pwerau Dirprwyedig i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Economi ac Adfywio, i benderfynu ceisiadau cynllunio lle mae ffosffadau yn broblem (yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.	
<b>Rheswm dros y penderfyniad:</b>	Caniatáu i Geisiadau Cynllunio gael eu penderfynu'n effeithlon	
<b>Trosolwg a Chraffu: Fframwaith Polisi:</b>	ddim yn berthnasol	
<b>Blaenoriaethau Corfforaethol:</b>	ddim yn berthnasol	
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	dim	
<b>Goblygiadau Cyfreithiol:</b>		
<b>Goblygiadau staffio:</b>	dim	
<b>Goblygiadau eiddo / asedau:</b>	dim	
<b>Risg(iau):</b>		
<b>Pwerau Statudol:</b>		
<b>Papurau Cefndir:</b>		
<b>Atodiadau:</b>	dim	
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Russell Hughes Pickering,	Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Alan Davies,	Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Cynllunio
<b>Dyddiad:</b>	26/05/21	

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION****Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y cyfarfod: 13 Gorffennaf, 2021****Teitl: Adroddiad Alldro'r Rhaglen Gyfalaf****Diben yr adroddiad: Adrodd ar Sefyllfa Alldro y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21****Er: Gwybodaeth****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Cyllid, Caffael a Diogelu'r Cyhoedd  
Y Cynghorydd Gareth Lloyd**1. Y Cefndir

Mae rheoli rhaglenni cyfalaf wedi bod yn heriol iawn yn ystod 2020/21 oherwydd effaith Covid-19. Ymhlith y materion y bu'n rhaid delio â nhw roedd rheoli mynediad contractwyr i safleoedd drwy gydol y flwyddyn a chyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn agos at ddiwedd y flwyddyn.

2. Y Sefyllfa Gyffredinol

Yr union wariant ar gyfer y flwyddyn oedd £13.813 m o'i gymharu â'r gyllideb o £17.737 m a bennwyd (heb gynnwys yr hapddigwyddiadau). Roedd y prif amrwyiannau fel a ganlyn:-

Enw'r Cynllun	Tan/(gor) wariant £'000
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Llety â Chymorth	456
Fforymau Lleol Cymru Gydnerth–Rhaglen Datblygu Asedau	379
Pontydd	347
Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif (Band B)	307
Grant Ffyrdd Cydnerth	270
Canol Tref Llanbedr Pont Steffan – gwelliannau i'r seilwaith gwyrdd	209
Cerbydau Newydd Eraill	161
Goleuadau Stryd	180
Canolfan Dulais – Cyllid Datblygu Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio	228
Grant Cyfleusterau i'r Anabl	159
Uwchraddio cyfarpar Siambr y Cyngor – cam 2	150
Amrwyiannau eraill o dan £150k	1,077

### 3. Amrywiannau

Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad manwl o'r sefyllfa alldro, ynghyd â'r lefel arfaethedig o gyllid i'w cario ymlaen i 2021/22 a ddangosir yn Atodiad B.

### 4. Derbyniadau Cyfalaf

Ni ddefnyddiwyd unrhyw Dderbyniadau Cyfalaf yn rhaglen 2020/21. Cafwyd £342k o Dderbyniadau Cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Mae balans Derbyniadau Cyfalaf o £6.331m i'w gario ymlaen i 2021/22, sy'n cynnwys eitemau sydd wedi'u clustnodi mewn perthynas â chynlluniau cysylltiedig â Grant Trafnidiaeth (£66k), ad-daliadau Benthyciad Tai (£612k), a Datblygiad Dan Dre (£1.737m).

### 5. Llithriant i 2021/22

Bydd cynlluniau a ariennir gan grant a chanddynt danwariant yn cael eu cario ymlaen i 2021/22 (lle y caniateir hynny o dan yr amodau grant penodol) a byddant yn cael eu hailbroffilio fel rhan o'r diwygiadau i'r Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd.

Mae atodlen o gynlluniau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol gydag ymrwymadau sy'n cario ymlaen i 2021/22 wedi'i chrynhoi yn Atodiad B; daw hyn i gyfanswm o £2.315m. Bydd y Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd yn cael ei diweddarau gyda'r ymrwymadau hyn.

**Asesiad Effaith Integredig:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?**

**Os naddo, nodwch pam.**

**Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid mewn polisi neu wasanaeth.**

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Hirdymor:**

**Integreiddio:**

**Cydweithio:**

**Cynnwys:**

**Atal:**

**Argymhelliad/Argymhellion:**

**Nodi'r adroddiad a'r perfformiad ariannol llwyddiannus.**

## Tudalen 59

<b>Y rhesymau dros y penderfyniad:</b>	<b>Dim angen nodi rhesymau</b>
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	<b>Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllildeb</b>
<b>Fframwaith Polisi:</b>	<b>Strategaeth Ariannol Cyfnod Canolig</b>
<b>Blaenoriaethau Corfforaethol:-</b>	<b>Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol.</b>
<b>Goblygiadau Ariannol:</b>	<b>Yn cydymffurfio</b>
<b>Pwerau Statudol:</b>	<b>Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992</b>
<b>Papurau Cefndir:</b>	<b>Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd</b>
<b>Atodiadau:</b>	<b>A – Adroddiad Alldro'r Rhaglen Gyfalaf B – Ymrwymadau a Gariwyd Ymlaen</b>
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael</b>	<b>Stephen Johnson</b>
<b>Swyddog Adrodd:</b>	<b>Liz Jones (Cyfrifydd Cynorthwyol)</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>15 Mehefin 2021</b>

## Adroddiad Alldro i'r Cabinet 2020/21

		Y Gyllideb Ddiweddaraf			Cyfanswm i'w Gyllido £	Tan/(Gor) wariant yn erbyn y gyllideb
		Cyllid Cyffredinol £'000	Cyllid Grant £'000	Cyfanswm £'000		
Rheolwyr Corfforaethol/Gw asanaeth						
Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band A)	NJ	183,000	-	<b>183,000</b>	142,731	40,269
Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)*	NJ	315,000	86,000	<b>401,000</b>	93,559	307,441
Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod	NJ	140,000	476,000	<b>616,000</b>	619,161	(3,161)
Darpariaeth Gofal Plant gan gynnwys Cenarth, Dyffryn Aeron a Henry Richards	NJ	-	1,088,000	<b>1,088,000</b>	1,099,935	(11,935)
Ysgol - gwaith cyfalaf ychwanegol	NJ	300,000	-	<b>300,000</b>	250,915	49,085
Prosiect E-sgol	NJ	-	41,000	<b>41,000</b>	41,212	(212)
System Wresogi o dan y llawr - Ysgolion	NJ	131,000	-	<b>131,000</b>	108,247	22,753
Rhaglen waith toau newydd i ysgolion	NJ	141,000	-	<b>141,000</b>	140,982	18
Peiriannau cyflenwi llaeth a biceri llaeth i ysgolion	NJ	-	20,000	<b>20,000</b>	3,498	16,503
Gwaith Brys - Ysgolion	NJ	5,000	-	<b>5,000</b>	24,570	(19,570)
Ennyn Chwilfrydedd (Amgueddfa Ceredigion)	NJ	7,000	86,000	<b>93,000</b>	81,852	11,148
		<b>1,222,000</b>	<b>1,797,000</b>	<b>3,019,000</b>	<b>2,606,662</b>	<b>412,338</b>

## Cyfanswm - Ysgolion

## Porth Cymorth Cynnar

Hwb Cymunedol - Canolfan Hamdden Plascrug	NJ	-	16,000	<b>16,000</b>	11,264	4,736
Hwb Cymunedol - Canolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan	CY	-	-	-	5,062	(5,062)
Campws Gwasanaeth Ieuenctid Cwrtnewydd	GJ	102,000	-	<b>102,000</b>	44,998	57,002
Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg	NJ	-	168,000	<b>168,000</b>	172,973	(4,973)
Digidol ôl-16 2030	MG	-	47,000	<b>47,000</b>	54,605	(7,605)
		<b>102,000</b>	<b>231,000</b>	<b>333,000</b>	<b>288,902</b>	<b>44,098</b>

## Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar

## Economi ac Adfywio

Canolfan Dulais - Cyllid Targeddu Buddsoddiad mewn Adfywio /Tai Ceredigion	AD	-	688,000	<b>688,000</b>	460,127	227,873
Llwybr Troed Cyhoeddus Safle Bywyd Gwyllt Cenarth	AD	12,000	76,000	<b>88,000</b>	89,122	(1,122)
Prosiect Helix Canolfan Bwyd Cymru	AD	-	-	-	0	0
Gwaith Trin Carthion	LG	74,000	-	<b>74,000</b>	57,610	16,390
Gwaith Brys Arall	LG	100,000	-	<b>100,000</b>	37,873	62,127
Adeiladau - Buddsoddi i Arbed	LG	175,000	-	<b>175,000</b>	31,898	143,102
Eiddo Anweithredol - Datblygiad Buddsoddi i Arbed	AD	79,000	-	<b>79,000</b>	6,901	72,099
Cronfa Dyfodol Economaidd	AD	-	39,000	<b>39,000</b>	35,918	3,082
Rhaglen Datblygu Asedau	AD	-	399,000	<b>399,000</b>	20,189	378,811
Grantiau Busnesau Bach (Cyfalaf)	AD	-	500,000	<b>500,000</b>	458,047	41,953
Neuadd y Farchnad Aberteifi	AD	90,000	-	<b>90,000</b>	50,562	39,438
Rhaglen Newid Pont Droed	AD	57,000	-	<b>57,000</b>	58,827	(1,827)
Canol Tref Llanbedr Pont Steffan - gwelliannau i'r seilwaith gwyrd	AD	-	219,000	<b>219,000</b>	9,593	209,407
Grant Gwella Mynediad	AD	-	83,000	<b>83,000</b>	82,726	274
Themâu Blaenoriaeth y Bartneriaeth i Gyflawni Adferiad Gwyrd	AD	-	-	-	196	(196)



## Adroddiad Alldro i'r Cabinet 2020/21

Rheolwyr Corfforaethol/Gw asanaeth	Y Gyllideb Ddiweddaraf			Cyfanswm i'w Gyllido £	Tan/(Gor) wariant yn erbyn y gyllideb
	Cyllid Cyffredinol £'000	Cyllid Grant £'000	Cyfanswm £'000		
<b>Cyfanswm - Economi ac Adfywio</b>	<b>587,000</b>	<b>2,004,000</b>	<b>2,591,000</b>	<b>1,399,589</b>	<b>1,191,411</b>

**Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol**

Ffyrdd	PJ	-	-	-	36,550	(36,550)
Pontydd	PJ	350,000	-	<b>350,000</b>	3,036	346,964
Gwasanaethau Amgylcheddol	GJ	103,000	-	<b>103,000</b>	64,821	38,179
Gwelliannau Cyffredinol i'r Priffyrdd	PJ	700,000	-	<b>700,000</b>	843,859	(143,859)
Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus	PJ	-	859,000	<b>859,000</b>	875,299	(16,299)
Peiriannau Talu ac Arddangos Di- Arian ar gyfer Parcio Ceir	PJ	48,000	-	<b>48,000</b>	43,770	4,230
Rhaglen Goleuadau Stryd	PJ	375,000	-	<b>375,000</b>	195,065	179,935
Datblygu Cymunedau Gwledig TAIS	PJ	-	125,000	<b>125,000</b>	146,605	(21,605)
LTN T2/T5 Coridor Trawscymru Gorllewin Cymru	PJ	-	570,000	<b>570,000</b>	552,532	17,469
Adfer y difrod a achoswyd gan Storm Callum	RLL	-	562,000	<b>562,000</b>	549,795	12,205
Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - Llanbadarn i Aberystwyth gan fynd heibio i Benweddig	PJ	28,000	337,000	<b>365,000</b>	355,164	9,836
Llwybrau Diogel mewn Cymunedau cyfnod 2 troedffordd Rhiwgoch	PJ	-	123,000	<b>123,000</b>	111,656	11,344
Cronfa Trafnidiaeth Leol - Mesurau Rheoli Traffig Tregaron	PJ	10,000	95,000	<b>105,000</b>	67,236	37,764
Y Gronfa Teithio Llesol llwybr cyd-ddefnyddio IBERS i Benrhyn-coch	PJ	-	494,000	<b>494,000</b>	480,437	13,563
Y Gronfa Teithio Llesol - Arian Craidd	PJ	-	215,000	<b>215,000</b>	215,384	(384)
Y Gronfa Teithio Llesol - Pont Yr Odyn	PJ	-	350,000	<b>350,000</b>	341,968	8,032
Trafnidiaeth Gynaliadwy - Ymateb i Covid	PJ	-	500,000	<b>500,000</b>	502,416	(2,416)
Grant Ffyrdd Cydnerth	PJ	-	300,000	<b>300,000</b>	29,752	270,248
Grant Rheoli Risgiau Llifogydd ac Erydiad	RLL	26,000	150,000	<b>176,000</b>	46,016	129,984
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd o Ddyfrffos - Llandre/Borth	RLL	-	80,000	<b>80,000</b>	10,069	69,931
Dyluniad Manwl Diogelu'r Arfordir Aberaeron	RLL	-	406,000	<b>406,000</b>	443,116	(37,116)
Diogelu'r Arfordir Llangrannog	RLL	-	91,000	<b>91,000</b>	69,312	21,688
Diogelu'r Arfordir Borth ac Ynyslas	RLL	-	123,000	<b>123,000</b>	91,047	31,953
Diogelu'r Arfordir Aberystwyth	RLL	-	76,000	<b>76,000</b>	55,608	20,392
Cerbydau Newydd (gorfodi parcio sifil)	GJ	35,000	-	<b>35,000</b>	0	35,000
Cerbydau newydd	GJ	215,000	270,000	<b>485,000</b>	323,064	161,936
Gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugol	GJ	318,000	-	<b>318,000</b>	293,723	24,277
Penrhos - Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff	GJ	135,000	-	<b>135,000</b>	110,365	24,635
<b>Cyfanswm- Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</b>		<b>2,343,000</b>	<b>5,726,000</b>	<b>8,069,000</b>	<b>6,857,662</b>	<b>1,211,338</b>

**Porth Gofal**

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	LH	900,000	-	<b>900,000</b>	741,261	158,739
Cynlluniau Benthg - Gwella Tai a Throi Tai'n Gartrefi	LH	257,000	-	<b>257,000</b>	184,830	72,170
Grant Galluogi ar gyfer Byw'n Annibynnol	LH	-	97,000	<b>97,000</b>	78,155	18,845
Cartrefi Cynnes Grant Boeleri Newydd	LH	-	15,000	<b>15,000</b>	15,000	0
Cartrefi Cynnes Grantiau Mesurau Ynni	LH	-	802,000	<b>802,000</b>	725,902	76,098

## Adroddiad Alldro i'r Cabinet 2020/21

Cylch Caron  
 Camu Mlaen - Canolfan Steffan  
 Gwaith Brys - Cartrefi Preswyl  
 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais  
 Rhywiol - Llety â Chymorth  
 Cronfa Gofal Canolraddol

	Rheolwyr Corfforaethol/Gw asanaeth	Y Gyllideb Ddiweddaraf			Cyfanswm i'w Gyllido £	Tan/(Gor) wariant yn erbyn y gyllideb
		Cyllid Cyffredinol £'000	Cyllid Grant £'000	Cyfanswm £'000		
	NL	-	-	-	0	0
	NL	5,000	-	5,000	1,328	3,672
	NL	-	-	-	(640)	640
	LH	111,000	345,000	456,000	400	455,600
	LH	-	90,000	90,000	90,400	(400)
		<b>1,273,000</b>	<b>1,349,000</b>	<b>2,622,000</b>	<b>1,836,636</b>	<b>785,364</b>

## Cyfanswm - Porth Ceredigion

Cyswllt Cwsmeriaid

Caledwedd TGCh  
 Ffonau Symudol Clyfar  
 System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

AM	100,000	-	100,000	2,663	97,337
AM	150,000	-	150,000	136,622	13,378
AM	26,000	-	26,000	0	26,000

## Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid

<b>276,000</b>	<b>-</b>	<b>276,000</b>	<b>139,285</b>	<b>136,715</b>
----------------	----------	----------------	----------------	----------------

Cyllid a Chaffael

Cynllun Grant Cymunedol

JD	100,000	-	100,000	80,294	19,706
----	---------	---	---------	--------	--------

## Cyfanswm - Cyllid a Chaffael

<b>100,000</b>	<b>-</b>	<b>100,000</b>	<b>80,294</b>	<b>19,706</b>
----------------	----------	----------------	---------------	---------------

Gwasanaethau Democraidd

Uwchraddio Cyfarpar ar gyfer Siambr y Cyngor - Cam 2

LE	150,000	-	150,000	0	150,000
----	---------	---	---------	---	---------

## Cyfanswm - Gwasanaethau Democraidd

<b>150,000</b>	<b>-</b>	<b>150,000</b>	<b>-</b>	<b>150,000</b>
----------------	----------	----------------	----------	----------------

Covid-19

Covid 19 - Ysbytai Maes

JD	-	577,000	577,000	628,009	(51,009)
----	---	---------	---------	---------	----------

## Total - Covid 19

<b>-</b>	<b>577,000</b>	<b>577,000</b>	<b>628,009</b>	<b>-51,009</b>
----------	----------------	----------------	----------------	----------------

Ymrwymadau a gariwyd ymlaen

Ymrwymadau a gariwyd ymlaen (Hen Gynlluniau)

	-	-	-	(23,237)	23,237
--	---	---	---	----------	--------

## CYFANSWM Y RHAGLEN WEITHIO

<b>6,053,000</b>	<b>11,684,000</b>	<b>17,737,000</b>	<b>13,813,802</b>	<b>3,923,198</b>
------------------	-------------------	-------------------	-------------------	------------------

Hapddigwyddiadau  
 Ariannu Cyfatebol yn y dyfodol ar gyfer Cynlluniau Arfordirol  
 Alinio proffiliau  
 Alinio proffiliau Derbyniadau Cyfalaf Tai

JD	144,000	-	144,000	-	144,000
JD	-	-	-	0	0
JD	100,000	-	100,000	0	100,000
JD	100,000	-	100,000	0	100,000

## Adroddiad Alldro i'r Cabinet 2020/21

Grantiau Newydd sydd wedi'u Cymeradwyo/ Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau grant

Rheolwyr Corfforaethol/Gw asanaeth	Y Gyllideb Ddiweddaraf			Cyfanswm i'w Gyllido £	Tan/(Gor) wariant yn erbyn y gyllideb
	Cyllid Cyffredinol £'000	Cyllid Grant £'000	Cyfanswm £'000		
JD	92,000	948,000	1,040,000	0	1,040,000
<b>Cyfanswm - Hapddigwyddiadau</b>	<b>436,000</b>	<b>948,000</b>	<b>1,384,000</b>	-	<b>1,384,000</b>
<b>CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL</b>	<b>6,489,000</b>	<b>12,632,000</b>	<b>19,121,000</b>	<b>13,813,802</b>	<b>5,307,198</b>

**CYLLID Y RHAGLEN**

Grant Cyfalaf Cyffredinol/ Benthycia â Chymorth  
Cyllid ad-daladwy Llywodraeth Cymru/Benthyciad Troi Tai'n  
Derbyniadau Cyfalaf  
Derbyniadau Cyfalaf Alinio Tai  
Cronfeydd Datblygu Addysg  
Cyfraniad Refeniw/Wrth Gefn  
Grantiau

5,719,000	-	<b>5,719,000</b>
257,000	-	<b>257,000</b>
63,000	-	<b>63,000</b>
100,000	-	<b>100,000</b>
315,000	-	<b>315,000</b>
35,000	-	<b>35,000</b>
-	12,632,000	<b>12,632,000</b>
<b>6,489,000</b>	<b>12,632,000</b>	<b>19,121,000</b>

**CYFANSWM CYLLID Y RHAGLEN**

# Tudalen 64

## Ymrwymadau o 2020/21 i'w cario ymlaen i 2021/22

(Elfennau'r Gronfa Gyffredinol yn unig-grantiau heb eu cynnwys ar yr adeg hon)

## Atodiad B

<u>Rhaglen</u>	<u>Y Swm y bwriedir ei gario ymlaen i 21/22</u>
<b>Yr eitemau y bwriedir eu cario ymlaen</b>	
Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif (Band A)	37,000
Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif (Band B)	221,000
Ysgol - gwaith cyfalaf ychwanegol	49,000
System Gwresogi o dan y Llawr - Ysgolion	23,000
Gwaith Brys mewn Ysgolion	(20,000)
Ennyn Chwilfrydedd (Amgueddfa Ceredigion)	7,000
Campws Gwasanaeth Ieuenctid Cwrtnewydd	57,000
Gwaith Trin Carthion	16,000
Eiddo Anweithredol - Datblygiad Buddsoddi i Arbed	72,000
Neuadd y Farchnad Aberteifi	39,000
Pontydd	347,000
Gwasanaethau Amgylcheddol	32,000
Rhaglen Goleuadau Stryd	180,000
Cerbydau Newydd Ychwanegol (gorfodi parcio sifil)	35,000
Cerbydau Newydd Eraill	155,000
Penrhos - Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff	25,000
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	100,000
Cynlluniau Benthycy Gwella Cartrefi a Throi Tai'n Gartrefi	72,000
Camu Mlaen - Canolfan Steffan	4,000
Datblygiad ar gyfer Digartrefedd - Llety â Chymorth	111,000
Caledwedd TGCh	97,000
Ffonau Symudol Clyfar	13,000
System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru	26,000
Uwchraddio Cyfarpar Siambr y Cyngor -Cam 2	64,000
Gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugol	24,000
Arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni grant	528,547
<b>Is-gyfanswm</b>	<b><u><u>2,314,547</u></u></b>
Cyfanswm	<b><u><u>2,314,547</u></u></b>
<b><u>Cyllid</u></b>	
Benthyca â Chymorth	1,986,547
Cronfa Addysg wrth Gefn	221,000
Benthyciadau ad-daladwy Cynlluniau Gwella Cartrefi a Throi Tai'n Gartrefi	72,000
Cronfa Refeniw wrth Gefn (gorfodi Parcio Sifil)	35,000
Cyfanswm	<b><u><u>2,314,547</u></u></b>

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>13 Gorffennaf 2021</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Y Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd ddiweddaraf – 2021/22-2023/24</b>
<b>Diben yr adroddiad:</b>	<b>Adrodd ar Raglen Gyfalaf 3 blynedd sydd wedi'i diweddarau</b>
<b>Er:</b>	<b>PENDERFYNIAD</b>
<b>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</b>	<b>Cyllid a Chaffael Y Cynghorydd Gareth Lloyd</b>

**1. CYFLWYNIAD**

Cymeradwywyd y Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd ddiweddaraf ar gyfer 2020/21 i 2023/24 gan y Cabinet ar 2 Chwefror 2021, fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb gyfan. Yn sgil cau cyfrifon 2020/21, mae angen addasu a diweddarau'r Rhaglen i adlewyrchu'r canlynol:

- Ymrwymadau a gariwyd ymlaen o 2020/21.
- Gofynion cyllido ychwanegol a ystyriwyd gan y Grŵp Datblygu.
- Ailbroffilio'r cynlluniau a ariennir gan grant, er mwyn adlewyrchu'r proffiliau diweddaraf ynghyd â grantiau newydd a gymeradwywyd.

**2. CRYNODEB CYFFREDINOL**

Mae'r Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd ddiweddaraf i'w gweld yn Atodiad A, sef Rhaglen Gyfalaf sy'n gyfanswm o £81.8m dros y tair blynedd nesaf, gan gynnwys Rhaglen Gyfalaf o £32.5m ar gyfer 2021/22. Mae fformat y rhaglen wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r strwythur corfforaethol newydd a'r gyllideb weithio a ddyrannwyd i bob Swyddog Arweiniol Corfforaethol. Mae'r dull hwn yn rhoi mwy o eglurder ac yn cryfhau rheolaeth ariannol y rhaglen.

**3. NEWIDIADAU ALLWEDDOL****Ymrwymadau a gariwyd ymlaen o 2020/21:**

Mae Atodiad B adroddiad alldro Rhaglen Gyfalaf 2020/21, yr adroddir arno ar wahân ar agenda y cyfarfod hwn o'r Cabinet, yn dangos y cynlluniau a ariennir gan y Cyngor sydd ag ymrwymadau sy'n dal i redeg ymlaen i 2021/22. Felly, mae angen i'r cynlluniau hyn a'r cyllid cysylltiedig (sef cyfanswm o £2.315m) gael eu cario ymlaen.

**Gofynion ychwanegol o ran cyllid:**

Mae'r Grŵp Datblygu hefyd wedi ystyried yr arian sydd ei angen ar gyfer Uned Cefnogi Dysgu Ysgol Penglais.

## **Ailbroffilio Cynlluniau a Ariennir gan Grant a Grantiau Newydd a Gymeradwywyd**

Mae amryw o gynlluniau grant wedi eu diweddarau naill ai ar gyfer grantiau newydd neu ar gyfer y proffiliau diweddaraf a gymeradwywyd. Ar hyn o bryd, y prif newidiadau yw cymeradwyo grantiau ar gyfer y canlynol:

- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)
- Gwaith Cyfalaf Ychwanegol i Ysgolion
- Cronfa Rhyddhau Tir – Rhaglen Datblygu Asedau
- Cronfa Ysgogi Cyfalaf Ranbarthol
- Canol Tref Llanbedr Pont Steffan – gwelliannau i'r seilwaith gwyrdd
- Canolfan Dulais - Cyllid Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio
- Grant Gwella Mynediad
- Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus
- Cronfa Trafnidiaeth Leol – coridor strategol bws TrawsCymru
- Cronfa Ffyrdd Cydnerth – modelu llifogydd
- Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn
- Cronfa Teithio Llesol – Cyllid Craidd
- Cronfa Teithio Lleol – Pecyn Tref Aberteifi
- Gwaith ar raddfa fach – Grantiau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol
- Rhaglen y Gronfa Gofal Ganolraddol
- Datblygiad Cymorth ar gyfer Digartrefedd – Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

**Asesiad Effaith Integredig: A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**

**Naddo, nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid polisi na gwasanaeth**

**Llesiant**

**Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Hirdymor:**

**Integreiddio:**

**Cydweithio:**

**Cynnwys:**

**Atal:**

**Argymhelliad/Argymhellion: Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd ar gyfer 2021/22 i 2023/24, fel y'i hamlinellir yn Atodiad A.**

**Rhesymau dros y penderfyniad: Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd ddiweddaraf**

**Trosolwg a Chraffu: Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb**

**Fframwaith Polisi: Strategaeth Ariannol Tymor Canolig**

**Blaenoriaethau Corfforaethol: Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn sail i bob blaenoriaeth gorfforaethol.**

## Tudalen 67

<b>Goblygiadau Ariannol:</b>	<b>Yn cydymffurfio</b>
<b>Pwerau Statudol:</b>	<b>Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992</b>
<b>Papurau Cefndir:</b>	<b>Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd yr adroddwyd arni i'r Cabinet ar 02/02/2021</b>
<b>Atodiadau:</b>	<b>A – Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd 3 2021/22 – 2023/24</b>
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael:</b>	<b>Stephen Johnson</b>
<b>Swyddog Adrodd:</b>	<b>Liz Jones (Cyfrifydd Cynorthwyol)</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>15 Mehefin 2021</b>

# Tudalen 68

## Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd Arfaethedig 2021/22 - 2023/24

### Atodiad A

	Cyllideb Amodol 2021/22	Cyfanswm Ddangosol 2022/23	Cyfanswm Ddangosol 2023/24	Ffynhonnell Gyllido
	CYFANSWM £'000	CYFANSWM £'000	CYFANSWM £'000	
<b>Ysgolion</b>				
Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Cam 1)	112	-	-	CSC
Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)	3,702	10,172	561	CSC/Grant
Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod	909	-	-	Grant
Darpariaeth Gofal Plant	1,489	787	-	Grant
Ysgol - gwaith cyfalaf ychwanegol	1,794	-	-	Grant
System Wresogi o dan y Llawr - Ysgolion	346	150	150	CSC
Ysgol Penglais - Uned Cefnogi Dysgu	687	-	-	CSC
Gwaith Brys Ysgolion	240	150	150	CSC
Ennyn Chwilfrydedd (Amgueddfa Ceredigion)	11	-	-	CSC/Grant
<b>Cyfanswm - Ysgolion</b>	<b>9,290</b>	<b>11,259</b>	<b>861</b>	
<b>Porth Cymorth Cynnar</b>				
Hwb Cymunedol - Llanbedr Pont Steffan	25	657	-	Grant
Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg	151	-	-	Grant
Campws Gwasanaeth Ieuencid Cwrtnewydd	167	-	-	CSC
<b>Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar</b>	<b>343</b>	<b>657</b>	<b>-</b>	
<b>Economi ac Adfywio</b>				
Canolfan Dulais - Cyllid Datblygu Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio	228	-	-	Grant
Llwybr Troed Cyhoeddus Safle Bywyd Gwylt Cenarth	4	-	-	Grant
Gwaith Trin Carthion	516	300	-	CSC
Gwaith Brys Arall	100	100	100	CSC
Adeiladau - Buddsoddi i Arbed	175	175	175	CSC
Eiddo Anweithredol - Datblygiad Buddsoddi i Arbed	72	-	-	CSC
Rhaglen Datblygu Asedau	379	-	-	Grant
Cronfa Ysgogi Economaidd	380	-	-	Grant
Neuadd y Farchnad Aberteifi	364	-	-	CSC
Rhaglen Adnewyddu Pontydd Troed	50	50	50	CSC
Gwelliannau i Seilwaith Gwyrdd Canol Tref Llanbedr Pont Steffan	209	-	-	Grant
Grant Gwella Mynediad	103	-	-	Grant
Grant Adferiad Gwyrdd	66	-	-	Grant
Datblygiad Tai Hafan y Waun	500	500	-	
<b>Cyfanswm-Economi ac Adfywio</b>	<b>3,146</b>	<b>1,125</b>	<b>325</b>	
<b>Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</b>				
Ffyrdd	200	200	200	CSC
Pontydd	297	350	150	CSC
Gwasanaethau Amgylcheddol	92	60	60	CSC
Cyffredinol	700	700	700	CSC
Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus	775	-	-	Grant
Rhaglen Goleuadau Stryd	380	-	-	CSC
Adfer y difrod a achoswyd gan Storm Callum	12	-	-	Grant
Cronfa Trafnidiaeth Leol - Coridor Strategol Bws TrawsCymru	842	-	-	Grant
Grant Ffyrdd Cydnerth - Modelu Llifogydd	250	-	-	Grant
Trawsnewid cerbydau allyriadau isel iawn	420	-	-	Grant
Cronfa Teithio Llesol - Arian Craidd	325	-	-	Grant
Cronfa Teithio Llesol - Pecyn Tref Aberteifi - Gwelliannau l'r Troedffyrdd	206	-	-	CSC/Grant
Cronfa Teithio Llesol llwybr a rennir IBERS i Benrhyn-coch	-	-	-	
Trafnidiaeth Cynaliadwy Ymateb i Covid	-	-	-	
Gwaith ar raddfa fach- Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu	215	-	-	CSC/Grant
Cynllun Lliniaru Llifogydd Dyfrffos Llandre/Borth	70	-	-	Grant
Diogelu'r Arfordir - Llangrannog	22	-	-	Grant
Diogelu'r Arfordir - Borth ac Ynys Las	32	-	-	Grant
Cynlluniau diogelu'r arfordir - Aberaeron ac Aberystwyth	3,000	11,000	6,000	CSC/Grant
Cerbydau Ychwanegol Newydd (gorfodi Parcio Sifil)	35	-	-	CSC
Gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugol	24	-	-	Grant
Cerbydau Newydd Eraill	902	350	350	CSC
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff	1,025	-	-	CSC
<b>Cyfanswm - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</b>	<b>9,824</b>	<b>12,660</b>	<b>7,460</b>	



# Tudalen 69

Cyllideb Amodol 2021/22	Ddangosol 2022/23	Ddangosol 2023/24	Ffynhonnell Gyllido
CYFANSWM £'000	CYFANSWM £'000	CYFANSWM £'000	

## Porth Gofal

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	1,700	1,400	1,400	CSC
Rhaglenni Gwella Cartrefi a Throi Tai'n Gartrefi	72	-	-	CSC
Grant Galluogi Byw'n Annibynnol	-	-	-	
Grant Boeleri Newydd ar gyfer Cartrefi Cynnes	-	-	-	
Grantiau Mesurau Ynni Cartrefi Cynnes	-	-	-	
Cylch Caron	252	-	-	CSC/Grant
Camu Mlaen - Canolfan Steffan	125	-	-	CSC
Gwaith Brys - Cartrefi Preswyl	132	100	100	CSC
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - Llety Y Gronfa Gofal Ganolraddol	294	-	-	CSC/Grant
	524	-	-	CSC/Grant
<b>Cyfanswm - Porth Ceredigion</b>	<b>3,099</b>	<b>1,500</b>	<b>1,500</b>	

## Cyswllt Cwsmeriaid

Caledwedd TGCh	197	100	100	CSC
Ffonau Symudol Clyfar	183	-	-	CSC
System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru	26	-	-	CSC
<b>Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid</b>	<b>406</b>	<b>100</b>	<b>100</b>	

## Gwasanaethau Democrataidd

System Rheoli Cyfarfodydd	-	-		
<b>Cyfanswm-Gwasanaethau Democrataidd</b>	<b>-</b>	<b>-</b>		

## Cyllid a Chaffael

Cynllun Grant Cymunedol	200	200	200	CSC
<b>Cyfanswm-Cyllid a Chaffael</b>	<b>200</b>	<b>200</b>	<b>200</b>	

## Gwasanaethau Democrataidd

Uwchraddio Cyfarpar Siambr y Cyngor - Cam 2	150	-	-	CSC/Grant
<b>Cyfanswm - Gwasanaethau Democrataidd</b>	<b>150</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	

## Covid-19

Covid-19	374	-	-	Grant
Cyllid i'w ddyrannu	-	700	1,350	CSC

## **CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH**

<b>26,832</b>	<b>28,201</b>	<b>11,796</b>
---------------	---------------	---------------

Hapddigwyddiadau	350	350	350
Arian cyfatebol yn y dyfodol ar gyfer cynlluniau arfordirol	-	-	-
Alinio proffiliau	153	150	-
Ailalinio proffil Derbyniadau Cyfalaf Tai	418	-	-
Grantiau Newydd a Gymeradwywyd/Arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni grant	4,750	4,214	4,200

<b>Cyfanswm- Hapddigwyddiadau</b>	<b>5,671</b>	<b>4,714</b>	<b>4,550</b>
-----------------------------------	--------------	--------------	--------------

## **CYFANSWM Y RHAGLEN GYFAN**

<b>32,503</b>	<b>32,915</b>	<b>16,346</b>
---------------	---------------	---------------

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>13/07/2021</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Yr Alldro Refeniw Rheoladwy ar gyfer 2020/21</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	<b>Adrodd ar sefyllfa Alldro derfynol y gyllideb</b>
<b>Er:</b>	<b>Gwybodaeth</b>
<b>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</b>	<b>Cyllid a Chaffael Y Cyngorydd Gareth Lloyd</b>

**1. CRYNODEB**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am y Gyllideb Refeniw Rheoladwy derfynol ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor ar gyfer 2020/2021. Roedd yr adroddiad monitro diwethaf am y cyfnod hyd at 31/12/2020 yn rhagweld tanwariant o £301k ar gyfer y flwyddyn.

Y sefyllfa derfynol yw bod tanwariant o £113k ar Wasanaethau ac, ar y cyd â £376k dros ben wrth gasglu Treth y Cyngor, mae hyn wedi arwain at gynydd o £489k yn y Balansau Cyffredinol, a fydd yn codi i £6.052m. Mae'r ffigwr hwn yn cyfateb i 3.9% o Gyllideb 2021/22 ac yn agos at ganol y targed o rhwng 3% a 5%. Mae perfformiad 2020/21 yn dangos fod sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn parhau i fod yn gadarnhaol a bod mantolen y Cyngor yn gadarn, er gwaethaf COVID19. Mae'r Cyngor wedi parhau â'i hanes o gyflwyno cyllideb gytbwys a ddarperir drwy strwythur Corfforaethol effeithiol a gefnogir gan y gwasanaeth Cyllid a Chaffael.

Mae'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu gosod yn ôl y blaenoriaethau, yr ymrwymadau a'r anghenion posib sy'n codi. Edrychwyd ar hyn ymhellach fel rhan o'r broses Alldro ac mae dadansoddiad llawn o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd i'w weld yn Atodiad 1. At ei gilydd, ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd wedi cynyddu i £38.5m (sef 25% o Gyllideb 2021/22).

Mae rheoli deinameg ariannol COVID19 wedi bod yn her ac yn ddwys o ran adnoddau felly mae blwyddyn ariannol 2020/21 wedi bod yn flwyddyn unigryw, na welwyd mo'i thebyg, i'r rhan fwyaf o'r Gwasanaethau. Gwelir yr effaith drwy gostau cynyddol, colli incwm refeniw a chyfuniad o ragor o adnoddau ac ailgyfeirio staff i gefnogi a gweithredu meysydd gweithgarwch newydd. Tua diwedd y flwyddyn ariannol cafwyd llawer mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru o ran ymestyn y meysydd sy'n gymwys am gyllid Caledi, cyhoeddiadau ychwanegol o ran ariannu a bod hawliadau grant yn cael eu hystyried yn gynt ac mewn modd mwy cadarnhaol. Gwerthfawrogwyd a chrosawyd y gydnabyddiaeth hon yn fawr ac mae wedi cyfrannu'n sylweddol at y sefyllfa ariannol well.

## 2. PERFFORMIAD Y GYLLIDEB NAD YW'N GYSYLLTIEDIG Â COVID-19

Mae'n bwysig nodi na fu effaith ariannol COVID19 yn ddu a gwyn. Er bod effeithiau penodol clir y cyfeirir atynt yn yr adran ar COVID19 yn yr adroddiad hwn, ceir yn ogystal effeithiau mwy cynnil ac anuniongyrchol ledled y rhan fwyaf o wasanaethau. Mae'r rhain, ynghyd â nifer o gyhoeddiadau ariannu ychwanegol a ddaeth yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth, wedi helpu i gyfrannu at y sefyllfa derfynol sy'n gadarnhaol ar y cyfan. Mae hyn wedi creu blwyddyn unigryw yn ariannol ac nid yw sefyllfa derfynol y gwasanaethau unigol, gan mwyaf, yn adlewyrchu blwyddyn 'normal' neu 'nodweddiadol'.

Yr unig faes lle gorwariwyd oedd ym model Gydol Oed y Pyrth, lle mae'r sefyllfa derfynol net yn dangos gorwariant o £573k. O fewn y sefyllfa hon mae nifer o amrywiadau oherwydd cymhlethdod ac amrywiaeth y cyllidebau sylfaenol, a'r gwaith parhaus o ddatblygu'r model newydd. Yn y pen draw, defnyddiwyd y tanwariant ym Mhorth Gofal (£950k) a Phorth Cymorth Cynnar (£351k), drwy gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi, i wrthbwysu'r sefyllfa ym Mhorth Cynnal gan fod y tri gwasanaeth yn cyblethu.

Er gwaethaf COVID19, mae cyllidebau dirprwyedig Ysgolion wedi gorffen y flwyddyn mewn sefyllfa gadarnhaol iawn. Ar y cyfan, mae Balansau Ysgolion wedi cynyddu o £2.68m i £6.35m ac nid oes diffyg gan yr un ysgol. Mae'n bwysig nodi fod y sefyllfa hon wedi codi'n bennaf am fod ffrydiau arian ychwanegol wedi dod i law, yn bennaf yn hwyr yn y flwyddyn ariannol (e.e. arian Atgyweirio a Chynnal a Chadw - £978k, arian amrywiol i'r Rhaglen Dysgu Carlam - £1.006m) ac arian grant ychwanegol a oedd yn ddarostyngedig i delerau ac amodau penodol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, daeth mwy o feysydd yn gymwys i gael cyllid Caledi Llywodraeth Cymru ac roedd arbedion yn ymwneud â COVID19 a gadwyd gan yr Ysgolion (e.e. ffioedd arholiadau, costau Cyfleustodau a Thrafnidiaeth). Bydd angen i Gyrrff Llywodraethu ddefnyddio'r adnoddau untro sydd ar gael iddynt yn eu Balansau mewn ffordd ddoeth a darbodus fel rhan o'r gwaith o gyflawni eu bwriadau Addysgol ac i barhau i adfer yn dilyn yr amharu a fu ar Ysgolion yn sgil COVID19. Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi pob Ysgol yn hyn o beth.

Un o ganlyniadau allweddol yr adolygiad diwedd blwyddyn yw creu pedair cronfa wrth gefn a glustnodir, un ar gyfer pob un o'r pedair blaenoriaeth Gorfforaethol. Mae hyn yn dangos yr ymrwymiad ariannol a'r buddsoddiad clir a roddir ar waith i gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol:

<b>Enw'r Gronfa newydd</b>	<b>31/03/21 Balans £'000</b>	<b>Prif Ymrwymadau</b>
Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl *	5,438	Arian cyfatebol Ysgolion yr 21ain Ganrif
Hybu'r Economi	4,510	Tyfu Canolbarth Cymru / Strategaeth Economaidd
Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd	500	Model Gydol Oed y Pyrth
Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol *	4,450	Arian cyfatebol Amddiffyn yr Arfordir, Clefyd Coed Ynn, mentrau'r Strategaeth Garbon

## Tudalen 73

*\* Mae'n cynnwys elfennau o'r cronfeydd Cyfalaf Corfforaethol a Datblygu Addysg.*

Mae'r ddalen nesaf yn dangos yr alldro cyllideb reoladwy ar gyfer pob Gwasanaeth:

Swyddog Arweiniol Corfforaethol /Gwasanaeth	2020/21 Cyllideb ddiweddraf £'000	2020/21 Gwirioneddol £'000	Tan/ (Gor) wariant £'000	Sylw
Gwasanaethau Democraidd	3,945	3,957	(12)	Dim mater o bwys i'w adrodd.
Cyllid a Chaffael	20,881	20,858	23	Mae llai o angen benthyg sy'n golygu costau llog is, arbedion staffio, arbedion cost Yswiriant, rhagor o gyllid COVID19 ynghyd â llai o fynd ar y gyllideb Diswyddo. Drwy hyn llwyddwyd i roi arian naill ochr ar gyfer etholiad Mai 2022 (£200k), i'r gronfa wrth gefn (gan gynnwys COVID19) (£750k), i'r gronfa Cyfalaf Corfforaethol wrth gefn (£350k) ac i greu'r gronfa newydd Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd (£500k).
Cyswllt â Chwsmeriaid	5,588	5,445	143	Dim mater o bwys i'w adrodd.
Cyfreithiol a Llywodraethu	1,532	1,476	56	Dim mater o bwys i'w adrodd.
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	2,205	2,178	27	Y prif achos o bryder yw'r gwaith sy'n mynd rhagddo i adfer Tir a Halogwyd.
Pobl a Threfniadaeth	2,071	2,007	64	Dim mater o bwys i'w adrodd.
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	16,334	16,305	29	Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi cyfrannu'n sylweddol at danwariant ar Briffyrdd a'r gwaith cynnal a chadw cysylltiedig (£726k) a llai o gostau Goleuadau Stryd (£153k) a Thrafnidiaeth (£184k), ynghyd â chyfuniad o lai o gostau a grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Gwastraff (£316k). Yn sgil hyn llwyddwyd i neilltuo cronfa wrth gefn o £1.45m i gefnogi mentrau Amgylcheddol a Chydnerthedd Cymunedol gan gynnwys Clefyd Coed Ynn a buddsoddiadau at y dyfodol sy'n ymwneud â'r Strategaeth Garbon.
Economi ac Adfywio	3,269	3,276	(7)	Mae tanwariant o wahanol feysydd ledled y gwasanaeth wedi'i ddefnyddio i gynyddu'r gronfa wrth gefn newydd 'Hybu'r Economi' gan £400k arall.
<b>Model Gydol Oed y Pyrth</b>				Mae'r prif feysydd o orwariant yn ymwneud â Thaliadau Uniongyrchol (£959k) a Gwelyau i Bobl Hŷn yn y Sector Annibynnol (£813k) sydd ill dau o dan Borth Cynnal, wedi'i gydbwyso â thanwariant ym Mhorth Gofal [£950k – yn bennaf Gofal Cartref (£420k), Tai (£150k) a Digartrefedd (£212k)] a Phorth Cymorth Cynnar [£351k – yn bennaf Canolfannau Lles (£130k) a Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar (£157k)].
<b>Ysgolion a Diwylliant</b>				Tanwariant o fewn Gwella Ysgolion (£353k), Anghenion Dysgu Ychwanegol (£531k) ac Arlwygo Corfforaethol (£289k) sy'n deillio'n bennaf o gyfuniad o arbedion Staff, incwm uwch o Godi Tâl rhwng Awdurdodau, arbedion Offer a Thrafnidiaeth ynghyd â chyllid grant ychwanegol. Mae hyn wedi galluogi £1.25m i gael ei roi naill ochr ar gyfer prosiectau cyfalaf at y dyfodol sy'n gysylltiedig ag Ysgolion. Mae cynnydd - o £3.7m - ym Malansau Ysgolion hefyd.
Ysgolion a Diwylliant (Awdurdod Addysg Lleol)	6,799	6,786	13	
Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion	42,074	42,075	(1)	
	48,873	48,861	12	

Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd wrth gefn	4,806	4,475	331	Dim mater o bwys i'w adrodd. £186k wedi'i drosglwyddo i gronfa Premiwm Treth y Cyngor (ar ôl caniatáu ar gyfer ad-daliadau Treth y Cyngor i dai sy'n trosglwyddo i Ardrethi Annomestig).
Grŵp Arweiniol	6,958	6,938	20	Gweler adran COVID19 yr adroddiad.
<b>Cyfanswm y Gyllideb Reoladwy</b>	<b>151,233</b>	<b>151,120</b>	<b>113</b>	
Gwarged Treth y Cyngor			376	
<b>Yr Alldro Terfynol</b>			<b>489</b>	

### 3. PERFFORMIAD CYLLIDEB COVID19

Drwy gydol y flwyddyn bu'n rhaid i'r gwasanaeth Cyllid a Chaffael fynd i'r afael â nifer o sefyllfaoedd ariannol deinamig. Bu'r rhain yn cynnwys nid yn unig effaith gyfnewidiol COVID19 ond hefyd y cyhoeddiadau ariannu a wnaed tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol - cyhoeddwyd dros £5m o gyllid rhwng dechrau Chwefror a diwedd mis Mawrth. Penderfynodd y Grŵp Rheoli Aur yn gynnar iawn y byddai cost COVID-19 yn cael ei hysgwyrddo ar y cyd yn gorfforaethol ar draws y Cyngor, felly mae'r rhan fwyaf o elfennau y cyfeirir atynt yn yr adran hon wedi'u cyfrif o dan bennawd Cyllideb y Grŵp Arweiniol.

Mae'r adran ddilynol yn crynhoi'r sefyllfa parthed y prif agweddau sy'n benodol i COVID19:

a) Costau Cynyddol COVID19 a Chronfa Galedi Frys Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â bod yn gronfa gyffredinol, mae Cronfa Galedi Frys Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol hefyd yn cynnwys rhannau penodol gan gynnwys Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Prydau Ysgol am Ddim, Corff Dai Dros Dro a Digartrefedd. Yn ystod 2020/21, cyflwynwyd hawliadau caledi misol gwerth cyfanswm o £8.4m i Lywodraeth Cymru, gan dderbyn £8.1m o grant sef cyfradd hawlio o 96% (mae hyn yn cynnwys amcangyfrif £0.7m ar gyfer eitemau sy'n weddill ac sydd gyda Llywodraeth Cymru o hyd). Mae hyn, ynghyd â chostau eraill nad oedd yn gymwys, yn golygu bod cost net o £553k i'r Cyngor am y flwyddyn.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £354k i helpu gyda chostau uwch cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, lle mae'r gwariant gros wedi codi i £6.3m o gymharu â £5.7m yn 2019/20. (Sylwer bod y gyllideb hon i'w gweld o dan Gyllid a Chaffael).

b) Incwm a Gollwyd yn y Gwasanaethau

Mae'r effaith yn parhau ar nifer fawr o ffrydiau incwm ar draws y Cyngor a'r prif wasanaethau yr effeithir arnynt yw Meysydd Parcio, Arlwy mewn Ysgolion a Hamdden. Yn dilyn yr hawliadau chwarterol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfanswm o £4.8m ar gyfer Incwm a Gollwyd. Ar y cyfan, mae'r cyllid hwn wedi gwneud yn iawn am yr incwm a gollwyd yn y Gwasanaethau.

c) Manteision Ariannol

Er bod y rhan fwyaf o effeithiau ariannol sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn negyddol, ceir rhai meysydd lle gwelwyd arbedion clir. Ymdriniwyd â'r prif benawdau cyllidebol hyn yn gorfforaethol, gan ganoli'r arbedion drwy symudiadau o fewn y gyllideb.

<b>Pennawd Cyllidebol</b>	<b>Arbedion £'000</b>
Costau Teithio Swyddogion/ Aelodau	681
Costau cyfleustodau ar gyfer adeiladau sydd ar gau yn rhannol / ar gau yn llwyr	226
Office 365	45
Casglu arian parod / Costau postio / Taliadau Banc / Uniflow	21
Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol	454
Costau Tanwydd	149



Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid wedi'i glustnodi o £1.2m i gydnabod effaith COVID19 ar y cynlluniau cyflawni arbedion a hefyd ar y siwrne Trawsnewid Digidol. Derbyniwyd ffioedd hefyd mewn perthynas â gweithredu a rheoli gwahanol gynlluniau grant gwerth cyfanswm o £0.5m.

d) Casglu Treth y Cyngor

Y gyfradd gasglu derfynol ar gyfer 2020/21 oedd 96.7%, o gymharu â 97.4% ar gyfer 2019/20. Yn ogystal â chyfradd is yn y flwyddyn, gwelir effaith ôl-ddyledion na chasglwyd ym malansau'r blynyddoedd blaenorol. Felly, er y bu Gwarged Treth y Cyngor yn ystod y flwyddyn (yn bennaf oherwydd cynnydd yn nifer yr anheddau a oedd yn fwy na'r hyn a dybiwyd), mae'r Cyngor wedi gorfod neilltuo rhagor i ddarparu ar gyfer dyledion drwg. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid o £575k i gynorthwyo gyda hyn.

Y sefyllfa derfynol mewn perthynas ag effaith benodol a sylweddol COVID19 yw bod y Cyngor, at ei gilydd, wedi gallu rheoli'r sefyllfa ariannol o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn bennaf oherwydd cymeradwywyd mwy o hawliadau grantiau a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol a groesawyd yn fawr, yn enwedig tua diwedd y flwyddyn. Fel rhan o'r sefyllfa Alldro, ac yn sgil ymdrin â'r arbedion yn gorfforaethol ac effaith y cyllid ychwanegol a gafwyd, llwyddwyd i gyfrannu i gronfa wrth gefn Hybu'r Economi, i'r gronfa Gyllid wrth gefn (Cyffredinol), ac i'r gronfa wrth gefn/ *Contingency* (gan gynnwys COVID19). Bydd y gronfa olaf yna yn cynnig rhagor o wytnwch wrth inni symud ymlaen, o gofio ein bod yn parhau i fod mewn cyfnod ansicr.

#### 4. CYNLLUNIAU ERAILL LLYWODRAETH CYMRU SY'N YMWNEUD Â COVID

Mae yna ystod o gynlluniau cenedlaethol sydd wedi gorfod cael eu gweithredu ar lefel leol. Hyd yn hyn fe'u cyflawnwyd yn bennaf drwy adleoli staff presennol a thrwy flaenoriaethu'r ffrydiau gwaith hyn dros weithgarwch arall. Cyllidwyd y cynlluniau hyn yn llawn gan Lywodraeth Cymru a dyma'r rhai mwyaf nodedig isod:

Rhyddhad Ardrethi Busnes NNDR (yr Ardreth Annomestig Genedlaethol) ar gyfer y sectorau Hamdden, Manwerthu a Lletygarwch	Dyfarwyd £9.1m o ryddhad NNDR ar gyfer 2020/21 a dyfarwyd £8.5m pellach ar gyfer 2021/22.
Grantiau Busnes COVID-19 yr NNDR (Mawrth 2020)	Talwyd £28.5m o grantiau NNDR - cynllun wedi cau
Grantiau Busnes y Cyfnod Clo Byr (Hydref 2020)	Talwyd £4.3m o grantiau - cynlluniau NNDR a Disgresiwn wedi cau.
Grantiau Busnes y Gronfa Gyfyngiadau (Rhagfyr 2020 ac amrywiol estyniadau)	Talwyd £16.2m o grantiau - cynlluniau NNDR a Disgresiwn wedi cau.
Grantiau Busnes i gychwyn busnes	Talwyd £158k o grantiau - cynllun wedi cau.

## Tudalen 78

Grant Darparwyr Gofal Plant	Talwyd £21k o grantiau - cynllun wedi cau.
£500 i Ofalwyr	Talwyd £878k i dros 1,500 o Ofalwyr - cynllun wedi cau.
£500 Cynllun Cymorth Hunanynysu	£45k o daliadau hyd yma – cynllun ar agor tan 30/06/21 fel y mae ar hyn o bryd
Cronfa i Ddarparwyr Gofal Cymdeithasol i Oedolion	Mae'n rhan o gyllid Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru ond roedd angen sefydlu cynllun grant penodol ar gyfer Darparwyr – mae hwn yn rhedeg hyd 30/06/21 ar hyn o bryd ond disgwylir iddo gael ei ymestyn.
Cynllun hybu tâl salwch statudol Gofalwyr	£23k o daliadau hyd yma – cynllun ar agor tan 30/09/21
£735 i Ofalwyr	Talwyd £585k hyd yma i dros 800 o Ofalwyr. Mae'r cynllun hwn dal yn fyw ac mae'r taliadau wrthi'n cael eu gwneud.
Cynllun Grant Gweithwyr Llawrydd Celfyddydol	Camau 1 a 2: Talwyd £475k o grantiau. Mae'r Gronfa Newydd i weithwyr llawrydd newydd gau (21 Mehefin) ac asesir y ceisiadau ar hyn o bryd
Grantiau Busnes Disgresiwn y Gronfa Cadernid Economaidd	Mae'r cynllun ar agor tan 30/06/21 ac asesir y ceisiadau sydd wedi dod i law

Yn ogystal â'r rhain, mae nifer fawr o grantiau penodol sy'n gysylltiedig â COVID y bu'n rhaid eu cyflenwi. Yn eu plith mae Profi Orlhain a Diogelu (Orlhain Cysylltiadau), Ysbytai Maes Dros Dro, Canolfan Frechu, Parseli Bwyd, cyllid brys o ran Bysiau, cyllid i'r sector diwylliannol, grantiau amrywiol sy'n ymwneud ag Addysg a Phrifyrdd, a Grantiau'r Gronfa Gyfalaf i Fusnesau Bach. At ei gilydd, mae dros 30 o gynlluniau grant ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID19 wedi cael cefnogaeth gan y gwasanaeth Cyllid a Chaffael.

### 5. CASGLIAD

Bu 2020/21 yn flwyddyn gwbl unigryw na welwyd mo'i thebyg o'r blaen. Mae perfformiad y gyllideb ar gyfer 2020/21 wedi bod yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, er gwaethaf yr heriau a gafwyd yn ystod y flwyddyn a'r pryderon gwirioneddol yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn pan nad oedd eglurder i ddechrau ynglŷn â chyllid. Er bod sefyllfa ariannu COVID19 wedi bod yn heriol ar adegau, mae Llywodraeth Cymru wedi clywed llais Llywodraeth Leol yn bennaf o safbwynt ariannol, a daeth cyllid sylweddol oddi wrth Lywodraeth Cymru a chafwyd deialog adeiladol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae model Gydol Oed y Pyrth dal wrthi'n datblygu a thrawsnewid sy'n golygu bod y meysydd cyllideb Gofal Cymdeithasol dwys yn dal yn debygol o gynnig heriau i'r gyllideb yn y tymor byr. Er hynny, mae'r sefyllfa Alldro wedi galluogi rhagor o fuddsoddi yn y pedair Blaenoriaeth Gorfforaethol, sy'n gam sylweddol ymlaen o ran medru cyflawni'r rhain. Yn ogystal, mae'r Ysgolion yn gyffredinol mewn sefyllfa ariannol gadarn a gwydn.

## Tudalen 79

Serch hynny, bydd y Cyngor yn wynebu heriau ariannol parhaus at y dyfodol, yn enwedig os na fydd y setliadau Llywodraeth Leol a wneir gan Lywodraeth Cymru yn gwella'n sylweddol ar y sefyllfa yn 2021/22 neu os cwtogir ar gyllid COVID19 Llywodraeth Cymru yn rhy fuan. Er hynny, serch y pandemig, mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddod drwyddi ac mae'n parhau i fod yn gadarn yn ariannol.

**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei wneud?** Nac oes.

**Os na, esboniwch pam** Mae'r adroddiad er gwybodaeth.

<b>Llesiant Dyfodol:</b>	<b>Cenedlaethau'r</b>	<b>Crynodeb:</b>	
		<b>Hirdymor:</b>	Ddim yn berthnasol
		<b>Integreiddio:</b>	Ddim yn berthnasol
		<b>Cydweithio:</b>	Ddim yn berthnasol
		<b>Cynnwys:</b>	Ddim yn berthnasol
		<b>Atal:</b>	Ddim yn berthnasol

**Argymhelliad:** I nodi'r adroddiad

**Rheswm dros y penderfyniad:** Dim angen un

**Trosolwg a Chraffu:** Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb

**Fframwaith Polisi:** Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

**Blaenoriaethau Corfforaethol:** Mae'r gyllideb yn cefnogi Amcanion Strategol y Cyngor

**Goblygiadau Ariannol:** Yn cydymffurfio

**Pwerau Statudol:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972

**Papurau Cefndirol:** Cyllideb Refeniw 2020/21

**Atodiadau:** Atodiad 1 – Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd

**Swyddog Corfforaethol:** **Arweiniol** Steve Johnson

**Swyddogion Adrodd:** Duncan Hall a Justin Davies

**Dyddiad:** 18/06/2021

**DATGANIAD O'R CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD A'R BALANSAU CYFFREDINOL**

**Atodiad 1**

	31/03/20	2020/21	2020/21 Gwir Drosglwyddia dau (i)/wrth y Cronfeydd wrth gefn	2020/21 Y Trosglwyddia d Terfynol i'r Balansau Cyffredinol	31/03/21
	Gwir Falansau £'000	Y symud ar y Balansau Agoriadol £'000	£'000	£'000	Gwir Falansau £'000
Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion - Cynradd	(1,521)	-	(1,514)	-	(3,035)
Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion - Uwchradd	(640)	-	(1,233)	-	(1,873)
Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion - Gydol Oed	(519)	-	(922)	-	(1,441)
Yswiriant - Cyflenwi	(149)	-	(148)	-	(297)
Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant	(407)	-	11	-	(396)
<b>Ysgolion a Diwylliant</b>	<b>(3,236)</b>	<b>-</b>	<b>(3,806)</b>	<b>-</b>	<b>(7,042)</b>
Cyfalaf Gorfforaethol	(4,252)	1,890	(863)	-	(3,225)
Cyfalaf Gorfforaethol - Cerbydau newydd	(1,110)	1,110	-	-	-
Addysg PFI Penweddig	(1,459)	-	536	-	(923)
Corfforaethol - Trefniadau ar y cyd	(8)	-	-	-	(8)
Cyllid / cyfartalu CTRS	(700)	-	-	-	(700)
Diswyddiadau Corfforaethol	(1,062)	-	-	-	(1,062)
Yswiriant	(501)	-	(387)	-	(888)
Cyllid - Cyffredinol	-	-	(250)	-	(250)
<b>Cyllid a Chaffael</b>	<b>(9,092)</b>	<b>3,000</b>	<b>(964)</b>	<b>-</b>	<b>(7,056)</b>
Gwasanaethau Democraidd	(112)	-	-	-	(112)
Cronfa wrth gefn etholiad y Cyngor Sir	-	-	(200)	-	(200)
<b>Gwasanaethau Democraidd</b>	<b>(112)</b>	<b>-</b>	<b>(200)</b>	<b>-</b>	<b>(312)</b>
Pobl a Threfniadaeth	(58)	-	-	-	(58)
<b>Pobl a Threfniadaeth</b>	<b>(58)</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(58)</b>
Porth Cymorth Cynnar	(2)	-	-	-	(2)
Porth Gofal	(222)	-	(117)	-	(339)
<b>Model Gydol Oed y Pwrth</b>	<b>(224)</b>	<b>-</b>	<b>(117)</b>	<b>-</b>	<b>(341)</b>
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	(102)	-	-	-	(102)
<b>Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd</b>	<b>(102)</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(102)</b>
Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	(80)	-	(1,213)	-	(1,293)
Cynnal a Chadw dros y Gaeaf/ Atgyweirio ar ôl Stormydd	(277)	-	-	-	(277)
Amddiffyn Amgylcheddol a rhag Llifogydd	(177)	-	-	-	(177)
Gorfodi Sifil - Parcio	(93)	-	-	-	(93)
<b>Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</b>	<b>(627)</b>	<b>-</b>	<b>(1,213)</b>	<b>-</b>	<b>(1,840)</b>
Adeiladau ac Ynni Adnewyddadwy	(67)	67	-	-	-
Cynllun Datblygu Lleol	(248)	-	-	-	(248)
Economi ac Adfywio	(177)	-	-	-	(177)
Canolfan Fwyd Cymru (Horeb)	(217)	-	-	-	(217)
Y Fargen Dwf	(250)	-	-	-	(250)
Rhaglen Wella Gwaith Trin Carthffosiaeth	(543)	-	-	-	(543)
<b>Economi ac Adfywio</b>	<b>(1,502)</b>	<b>67</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(1,435)</b>
Cyswllt â Chwsmeriaid	(134)	-	-	-	(134)
<b>Cyswllt â Chwsmeriaid</b>	<b>(134)</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(134)</b>
Cyfreithiol a Llywodraethu	(125)	-	-	-	(125)
<b>Cyfreithiol a Llywodraethu</b>	<b>(125)</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(125)</b>
Wrth gefn/ Contingency (gan gynnwys COVID19)	(1,500)	-	(2,873)	-	(4,373)
Premiwm Treth y Cyngor	(462)	-	(186)	-	(648)
Eisteddfod Genedlaethol 2020	(170)	-	-	-	(170)
Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl	(4,781)	-	(656)	-	(5,437)
Hybu'r Economi	-	(67)	(4,443)	-	(4,510)
Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd	-	-	(500)	-	(500)
Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol	-	(3,000)	(1,450)	-	(4,450)
<b>Grŵp Arweiniol</b>	<b>(6,913)</b>	<b>(3,067)</b>	<b>(10,108)</b>	<b>-</b>	<b>(20,088)</b>
<b>Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd</b>	<b>(22,125)</b>	<b>-</b>	<b>(16,408)</b>	<b>-</b>	<b>(38,533)</b>
Balansau Cyffredinol	(5,563)	-	-	(489)	(6,052)
<b>CYFANSWM TERFYNOL</b>	<b>(27,688)</b>	<b>-</b>	<b>(16,408)</b>	<b>(489)</b>	<b>(44,585)</b>

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>13 Gorffennaf, 2021</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Perfformiad Rheoli'r Trysorlys 2020/21</b>
<b>Diben yr adroddiad:</b>	<b>Adrodd ar Berfformiad Rheoli'r Trysorlys 2020/21</b>
<b>Er:</b>	<b>GWYBODAETH</b>
<b>Portffolio Cabinet:</b>	<b>Gwasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cynghorydd Gareth Lloyd</b>

**1. CYFLWYNIAD**

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (y Cod). O dan y cod, mae'n ofynnol adrodd i'r Cabinet ar weithgarwch disgwylidig y trysorlys am y flwyddyn i ddod ac yna ar berfformiad gweithgarwch rheoli trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn honno.

Mae CIPFA yn diffinio rheoli'r trysorlys fel a ganlyn:

*“Rheoli buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod, ei drefniadau bancio, ei drafodion ar y marchnadoedd arian a'r marchnadoedd cyfalaf; rheolaeth effeithiol dros y risgiau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hynny a cheisio sicrhau'r perfformiad gorau'n unol â'r risgiau hynny.”*

**2. STRATEGAETH**

Cafodd strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2020/21 ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2020.

Yn Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor amlinellir mai blaenoriaethau'r Cyngor o ran buddsoddi yw diogelwch cyfalaf a hylifedd. Y bwriad yw sicrhau'r elw gorau ar y buddsoddiadau a hynny'n gymesur â lefelau priodol o ddiogeledd a hylifedd. Yn gyffredinol, rhagwelwyd y byddai buddsoddiadau ar gyfer gofynion llif arian craidd yn para am gyfnodau o hyd at 3 mis, ond y byddai cyfle i fuddsoddi am gyfnodau hirach (hyd at flwyddyn) pe byddai balansau dros ben ar gael ar gyfer buddsoddi.

Ni fu unrhyw fenthyciadau newydd yn ystod 2020/21 ac mae'r Cyngor yn parhau i gynnal ei fenthyciadau mewnol sy'n helpu i gyflawni arbedion refeniw yn y tymor byr.

## Tudalen 82

### Pandemig Covid-19

Yn sgil pandemig Covid-19, defnyddiodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (swyddog adran 151) bwerau dirprwyedig i newid Strategaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn cynyddu'r terfyn ar gyfer balansau sy'n cael eu dal gyda darparwr bancio corfforaethol y Cyngor (Barclays), a hynny o £7m i £13m. Roedd hyn er mwyn hwyluso rhagor o hylifedd drwy gydol yr argyfwng. Roedd y newid hwn yn y strategaeth yn dal i fod ar waith ar ddiwedd y flwyddyn.

### 3. YMGYNGHORWYR Y TRYSORLYS

Mae'r Cyngor yn cyflogi Link Treasury Solutions Ltd yn ymgynghorydd allanol i'r Cyngor parthed y Trysorlys ar gontract hyd at 31/08/2021.

### 4. CONTRACT BANCIO

Mae gan y Cyngor gontract gyda Barclays ar gyfer cyflawni ei drefniadau bancio, sy'n weithredol tan 29/02/2024.

### 5. SEFYLLFA'R PORTFFOLIO

Isod nodir sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion a buddsoddiadau, ar ddechrau a diwedd y flwyddyn.

	<u>Y prif bethau sy'n weddill</u>	
	<u>ar</u>	
	<u>31/03/20</u>	<u>31/03/21</u>
	<u>£m</u>	<u>£m</u>
<u>Benthyciadau Allanol</u>		
Benthyciadau'r PWLB	116.2	110.0
Benthyciadau Marchnad Barclays	5.8	5.8
Benthyciad ad-daladwy Llywodraeth Cymru	0.8	0.8
<b>Cyfanswm y Ddyled</b>	<b>122.8</b>	<b>116.6</b>
<u>Buddsoddiadau</u>		
Mewnol	22.5	29.2
<b>Cyfanswm y Buddsoddiadau</b>	<b>22.5</b>	<b>29.2</b>
<b>Dyled Net</b>	<b>100.3</b>	<b>87.4</b>

Mae manylion y buddsoddiadau yr oedd y Cyngor yn eu dal ddiwedd y flwyddyn i'w gweld yn Atodiad A ac mae manylion dyledion allanol y Cyngor fel yr oeddent ddiwedd y flwyddyn i'w gweld yn Atodiad B.

### 6. CYFRADDAU LLOG

#### Cyfraddau llog y tymor byr

Cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yw 0.1% ar hyn o bryd, ac mae wedi aros ar y gyfradd hon ers iddi gael ei gostwng i'r lefel hon ym mis Mawrth 2020 pan gafwyd yr achosion cyntaf o Covid-19.

## Tudalen 83

Mae ein Hymgynghorwyr Trysorlys o'r farn y bydd y gyfradd hon yn aros ar 0.10% hyd y gellir rhagweld.

### Cyfraddau llog y tymor hir

(ar gyfer benthyciadau sy'n aeddfedu o'r newydd ac eithrio cyfradd Sicr/Prosiect y PWLB)

Ddechrau'r flwyddyn yr oedd cyfradd 49½ hyd 50 mlynedd y PWLB yn 2.54% a chynyddodd hon i 2.75% erbyn 25 Tachwedd 2020. Ar 26 Tachwedd, ar ôl i ymgynghoriad y PWLB ddod i ben, fe wnaeth y Trysorlys gael gwared ar y 100 o bwyntiau benthycy ychwanegol a gyflwynwyd ym mis Hydref 2019 ar gyfer benthyciadau PWLB newydd. Oddi ar 26 Tachwedd 2020 bu'r gyfradd yn amrywio rhwng 1.52% a 2.33% cyn gorffen y flwyddyn ar 2.19%.

Roedd cyfradd 24½ hyd 25 mlynedd y PWLB wedi dilyn patrwm tebyg (gan gynnwys y gostyngiad o 1% ym mis Tachwedd 2020). Dechreuodd y flwyddyn ar 2.80% gan amrywio rhwng 1.73% a 3.07% yn ystod y flwyddyn cyn gorffen y flwyddyn ar 2.39%.

## 7. BENTHYCIADAU

Yn ystod 2020/21 aeddfedodd dau o fenthyciadau'r PWLB ac ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau aeddfedu newydd gyda'r PWLB. Dyma'r manylion:

Rhif y Benthyciad	Cyfradd Ilog	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Swm y Benthyciad
-------------------	--------------	-----------------	-----------------	------------------

Benthyciadau PWLB a aeddfedwyd

475886	8.50%	03-Mai-95	10-Gorffennaf-20	3,110,799
476613	8.00%	30-Tachwedd-95	21-Gorffennaf-20	2,000,000

Yn ogystal, bu cyfanswm o £1.0m o amrywiol ad-daliadau blwydd-dal.

Mewn termau cyllidol, yr union log a dalwyd ar fenthyciadau allanol ar gyfer 2020/21 oedd £4.997m o'i gymharu â'r gyllideb ddiweddaraf o £5.671m, a esgorodd ar amrywiad ffafriol o £674k.

## 8. BUDDSODDIADAU

Cafodd y buddsoddiadau a reolir yn fewnol eu buddsoddi gyda'r sefydliadau a oedd wedi eu rhestru ar restr fenthycy gymeradwy'r Cyngor ar yr adeg y gwnaethpwyd y buddsoddiad. Yn bennaf buddsoddodd y Cyngor am gyfnodau byrion at ddibenion sy'n ymwneud â llif arian (e.e. taliadau credydwy, taliadau cyflogres), ond gan fanteisio ar werth ychwanegol buddsoddi am gyfnodau hirach lle'r oedd y llifau arian yn caniatáu hynny. Yn gryno felly, yr oedd y strategaeth yn canolbwyntio ar yr isod:

- Dim buddsoddiadau mwy na blwyddyn o hyd.

## Tudalen 84

- Dim buddsoddiadau gydag unrhyw barti i gontract nad yw'n cyflawni sgôr gredyd sylfaenol a ddiffinnir yn 'Wyrdd' gan Link ac eithrio banciau cymorth y Llywodraeth (a ddiffinnir yn 'Las' gan Link)
- Rhestr osod o bartïon i gontract (yn amodol ar gyflawni meini prawf y sgôr gredyd) sef: Banc Barclays, Grŵp Bancio Lloyds, HSBC, Cymdeithas Adeiladu Nationwide, Santander UK, Grŵp Royal Bank of Scotland, Cymdeithas Adeiladu Coventry, Cymdeithas Adeiladu Leeds, Cymdeithas Adeiladu Swydd Efrog, Cymdeithas Adeiladu Skipton, Banc Standard Chartered, UBS Cyf, Awdurdodau Lleol eraill a chyfrif Swyddfa Rheoli Dyledion Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae canlyniadau'r buddsoddiadau a wnaethpwyd (rheolir y cyfan yn fewnol gan dîm y Trysorlys) yn 2020/21 fel a ganlyn:

<u>Balansau Cyfartalog y Buddsoddiadau</u>	<u>Cyfradd</u> <u>Enillion</u>	<u>Enillion</u> <u>Meincnod *</u>
Buddsoddiadau - £40.07m	0.12%	0.05%

\* Ilog syml 7 niwrnod ar gyfradd LIBID

Mewn termau cyllidol, yr oedd yr union incwm cyffredinol o fuddsoddiadau yn £46k o'i gymharu â'r gyllideb ddiweddaraf o £58k, a esgorodd ar amrywiad anfanteisiol o £12k.

### 9. AD-DREFNU DYLEDION

Ni chafodd unrhyw ddyledion eu had-dalu'n gynnar ac ni ad-drefnwyd dyledion ychwaith yn 2020/21.

### 10. CYDYMFFURFIO Â CHYFYNGIADAU'R TRYSORLYS

Yn ystod y flwyddyn ariannol bu'r Cyngor yn gweithredu o fewn terfynau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus a nodir yn adroddiad Strategaeth Rheoli Trysorlys blynyddol y Cyngor.

<b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b>	<b>A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam</b> Crynodeb: Amherthnasol Hirdymor: Integreiddio: Cydweithio: Cynnwys: Atal:
<b>Argymhelliad:</b>	<b>Nodi cynnwys yr adroddiad</b>
<b>Y rheswm dros y penderfyniad:</b>	Nid oes angen
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Ystyriwyd yn ystod y broses o gymeradwyo'r Strategaeth



## Tudalen 85

<b>Fframwaith Polisi:</b>	Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020/21
<b>Blaenoriaethau Corfforaethol:</b>	Mae Rheoli'r Trysorlys yn ategu'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol
<b>Goblygiadau Ariannol:</b>	Cyllidebau Cyllid a Chaffael: Incwm o Fuddsoddiadau / Llog Allanol a Delir
<b>Pwerau Statudol:</b>	Deddf Llywodraeth Leol 2003
<b>Papurau Cefndir:</b>	Adroddiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21 a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn (Mawrth 2020)
<b>Atodiadau:</b>	Atodiad A – Portffolio Buddsoddi Atodiad B – Portffolio Dyledion
<b>Swyddog Corfforaethol:</b>	<b>Arweiniol</b> Stephen Johnson (Cyllid a Chaffael)
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Mark Bridges (Rheolwr Gwasanaeth - Prosiectau a Chyfrifon)
<b>Dyddiad:</b>	22 Mehefin 2021

**BUDDSODDIADAU**

DETAILS	VALUE	INVESTMENT	
	£	FROM	TO
<u>Investments held</u>			
Debt Management Account Deposit Facility (DMADF)	1,000,000	24/03/2021	16/04/2021
Debt Management Account Deposit Facility (DMADF)	1,000,000	25/03/2021	19/04/2021
Debt Management Account Deposit Facility (DMADF)	1,500,000	25/03/2021	22/04/2021
Debt Management Account Deposit Facility (DMADF)	1,500,000	25/03/2021	23/04/2021
Coventry Building Society	<u>1,500,000</u>	29/03/2021	30/04/2021
	<u>6,500,000</u>		
<u>Deposits in Barclays Reserve a/c</u>			
Barclays Bank	<u>12,219,037</u>	31/03/2021	-
<u>Deposits in Instant Access Call Accounts</u>			
Nat West Liquidity Select	<u>-10,834</u>	31/03/2021	-
(offset against Nat West Account Below)	<u>-10,834</u>		
<u>Deposits in Notice Account</u>			
Santander 95 Day Notice	4,001,699	31/03/2021	-
Bank of Scotland 32 Day Notice	4,000,000	31/03/2021	-
Nat West 35 Day Notice Account	<u>2,491,392</u>	31/03/2021	-
	<u>10,493,092</u>		
<b>Total Investments as at 31/03/21</b>	<b><u>29,201,294</u></b>		

## DYLED ALLANOL

Atodiad B

Loan Ref	Repayment Method	Start Date	Maturity Date	Original Interest rate	Balance as at 31/03/21
<b>PWLB Loans</b>					
417195	A	24-Dec-71	02-Dec-31	8.000%	20,415
419325	A	21-Mar-72	02-Dec-31	7.750%	14,318
427730	A	12-Jun-73	02-Jun-33	9.875%	21,070
478179	M	26-Sep-96	31-Mar-56	8.125%	5,000,000
478585	M	10-Dec-96	30-Sep-56	7.500%	3,000,000
480055	M	13-Oct-97	30-Sep-57	6.375%	6,000,000
480689	M	27-Mar-98	30-Sep-52	5.875%	2,000,000
481159	M	20-Jul-98	31-Mar-53	5.500%	3,500,000
490819	M	24-Nov-05	31-Mar-31	4.250%	2,000,000
490981	M	11-Jan-06	31-Mar-51	3.900%	2,000,000
491703	M	07-Jun-06	30-Sep-41	4.350%	2,700,000
491819	M	07-Jul-06	30-Sep-31	4.500%	5,300,000
491837	M	12-Jul-06	02-Jun-39	4.450%	2,000,000
492936	M	20-Feb-07	06-Aug-32	4.550%	6,000,000
493401	M	22-Jun-07	30-Sep-22	5.400%	6,700,000
493733	M	10-Aug-07	30-Sep-37	4.750%	9,551,120
501411	A	10-Jul-12	31-Mar-32	2.860%	1,424,070
501928	A	01-Mar-13	31-Mar-29	2.630%	1,615,795
502054	A	28-Mar-13	06-Feb-33	2.860%	1,532,810
502477	A	13-Aug-13	30-Sep-28	3.110%	1,630,413
502596	M	10-Oct-13	09-Oct-36	4.210%	5,000,000
502827	M	06-Feb-14	10-Jan-25	3.660%	3,000,000
502828	M	06-Feb-14	10-Jan-27	3.840%	2,000,000
502981	A	09-Apr-14	31-Mar-34	3.680%	1,677,051
502982	A	09-Apr-14	30-Sep-28	3.230%	2,299,341
503489	M	25-Nov-14	31-Mar-45	3.670%	5,000,000
503490	A	25-Nov-14	31-Mar-44	3.400%	1,207,212
503728	M	09-Feb-15	31-Mar-60	2.750%	4,000,000
503729	M	09-Feb-15	31-Mar-61	2.750%	4,000,000
504645	A	04-Feb-16	30-Sep-45	2.760%	2,283,223
506318	M	06-Sep-17	01-Sep-28	1.970%	2,000,000
506319	M	06-Sep-17	01-Sep-46	2.560%	6,000,000
507963	M	30-Oct-18	31-Mar-34	2.500%	2,000,000
507964	M	30-Oct-18	30-Sep-48	2.460%	1,800,000
508214	M	13-Dec-18	30-Sep-39	2.520%	2,000,000
509622	M	08-Aug-19	30-Sep-58	1.970%	2,000,000
509623	M	08-Aug-19	30-Sep-34	1.730%	1,800,000
					110,076,838
<b>Market Loan</b>					
BBFRML	M	20-Jun-16	13-Sep-66	3.660%	5,750,000
<b>WG Repayable Loan funding</b>					
HIELPL1	M	06-Mar-15	31-Mar-30	0.000%	556,075
HIELPL2	M	27-Mar-20	31-Mar-35	0.000%	250,000
					806,075
<b>TOTAL</b>					<b>116,632,913</b>

*Allwedd**A – Blwydd-dal**M – Aeddfedu*

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>13 Gorffennaf 2021</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Grantiau a ddyfarnwyd o dan Gynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion a Chronfa'r Degwm</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	<b>Adrodd ar y grantiau a ddyfarnwyd o dan Gynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion a Chronfa'r Degwm yn 2020/2021</b>
<b>Er:</b>	<b>Gwybodaeth</b>
<b>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cyngorydd Gareth Lloyd – Cyllid a Chaffael a Diogelu'r Cyhoedd a'r Cyngorydd Rhodri Evans – yr Economi ac Adfywio</b>

**1. Cefndir - Cynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion**

Diben Cynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion yw ehangu'r amrywiaeth o gyfleusterau, gweithgareddau a chyfleoedd sydd ar gael yng Ngheredigion. Mae grantiau ar gael i Grwpiau Cymunedol, Cyngorau Cymuned neu Gymdeithasau Chwaraeon a Hamdden Gwirfoddol dilys. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor, gan gynnwys Canllawiau'r Cynllun a Ffurflenni Cais.

Mae'r cynllun yn cael ei redeg a'i gefnogi gan y gwasanaeth Cyllid a Chaffael a chaiff y ceisiadau eu hystyried gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael, gan ymgynghori ag un ai'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros Gyllid a Chaffael a Diogelu'r Cyhoedd, neu â'r Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y grantiau a gafodd eu dyfarnu a'u talu yn ystod 2020/21 mewn perthynas â chynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion.

Mae COVID-19 wedi cael effaith fawr ar y grantiau a ddyfarnwyd ac a dalwyd yn ystod 2020/21. Gohiriwyd sawl cynllun cyfalaf a gwnaed cais am ond ychydig iawn o grantiau refeniw a pholisi – adlewyrchir hyn yn y wybodaeth a ddarperir isod.

**2. Cyllideb Cyfalaf – Grantiau Cyfalaf a Ariannwyd gan y Cyngor**

	<u>Nifer y grantiau</u>	<u>£</u>
Cyllideb wedi'i adolygu		100,000
Taliadau Grant Cyfalaf	11	<u>(80,294)</u>
Tanwariant		<u>19,706</u>

**3. Cyllideb Refeniw – Cronfa'r Degwm**

Mae cyllideb Grantiau Cymunedol Ceredigion yn cynnwys cyfran y Cyngor o incwm buddsoddi Cronfa'r Degwm. Mae'r adroddiad hwn yn dangos y grantiau a ddyfarnwyd yn ystod 2020/21 o elfen Cronfa'r Degwm o Gynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion.

a) Grantiau a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn

	<u>Nifer y grantiau</u>	<u>£</u>
Dyraniad Gwreiddiol (Tybiannol)		30,000
Taliadau Grant Refeniw Cronfa Degwm Cymru	1	<u>(10,000)</u>
Tanwariant		<u>20,000</u>

Talwyd ac ariannwyd y grantiau canlynol o elfen Cronfa'r Degwm o Gynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion.

	<u>£</u>
Canolfan Deuluol Tregaron	10,000
	<b>10,000</b>

b) Crynodeb

Dyma'r sefyllfa sydd ohoni o ran balans incwm buddsoddi Cronfa Degwm y Cyngor:

	<b>£'000</b>
Balans agoriadol ar 01/04/2020	134
Incwm a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin	22
	<b>156</b>
<b><u>Namyn</u></b>	
Grantiau a gymeradwywyd yn 2020/2021	10
Costau'r gwasanaethau cynhaliol	2
	<b>12</b>
<b>Amcangyfrif o'r Balans ar 31/03/2021</b>	<b>144</b>

# Tudalen 91

## 4. Cyllideb Refeniw – Grantiau Polisi a Ariannwyd gan y Cyngor

	<u>Nifer y grantiau</u>	<u>£</u>
Cyllideb Wreiddiol		25,100
<u>Taliadau Grant Refeniw</u>		
Papurau Bro	5	(2,500)
Tanwariant		<u>22,600</u>

Mae Atodiad 2 yn nodi'r grantiau Polisi Refeniw a gafodd eu cymeradwyo a'u talu yn ystod y flwyddyn.

### **Asesiad Effaith Integredig:**

### **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei wneud? Os na, esboniwch pam**

Nac oes, am nad yw'r adroddiad hwn yn newid polisi neu wasanaeth.

### **Crynodeb:**

### **Hirdymor:**

Gwella'r seilwaith i sicrhau bod datblygiadau'r dyfodol yn cwrdd ag anghenion y cymunedau.

### **Cydweithio:**

### **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

### **Cynnwys:**

Helpu a chynorthwyo cymunedau i fod yn fwy hunangydnerth.

### **Atal:**

### **Integreiddio:**

### **Argymhelliad:**

Nodi'r grantiau a ddyfarnwyd o dan Gynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion a Chronfa'r Degwm yn 2020/2021.

### **Rheswm dros y penderfyniad:**

Ddim yn ofynnol

### **Trosolwg a Chraffu:**

Cynllun Cymorth Grantiau a gymeradwywyd gan y Cyngor

### **Fframwaith Polisi:**

Cynllun Cymorth Grantiau a gymeradwywyd gan y Cyngor

### **Blaenoriaethau Corfforaethol:**

Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol

## Tudalen 92

<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	O fewn y Gyllideb Bresennol
<b>Goblygiadau Cyfreithiol:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Goblygiadau Staffio:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Risg(iau):</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Pwerau Statudol:</b>	Deddf Llywodraeth Leol 1999
<b>Papurau Cefndirol:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Atodiadau:</b>	1-2
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Stephen Johnson, Cyllid a Chaffael
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Fflur Lawlor, Cynorthwy-ydd Grantiau Cymunedol ac Yswiriant
<b>Dyddiad:</b>	21 Mehefin 2021



**CYNLLUN GRANTIAU CYMUNEDOL CEREDIGION COMMUNITY GRANT SCHEME**

**Grantiau Cyfalaf ystyriwyd / cymeradwywyd gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd neu Aelod Cabinet dros Wasanaethau Yr Economi ac Adfywio yn 2020/2021**

**Capital Grants considered / approved by Corporate Lead Officer - Finance and Procurement in Consultation with the Cabinet Member with responsibility for Finance and Procurement Services and Public Protection or Cabinet Member for Economy and Regeneration in 2020/2021.**

<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	<b>Dyddiad Cymeradwywyd / Date Approved</b>	<b>Grant Cymeradwy wyd / Grant Approved £</b>	<b>Grant hawliwyd / Grant claimed £</b>
------------------------------	---	---	---

**Trosglwyddwyd o / Transfer from 2019/20**

St David's Church Blaenporth	28/06/2020	19,250	0
Cwmni Theatr Arad Goch	28/06/2020	4,525	1,884
Capel M.C Ponterwyd	28/06/2020	2,380	2,380
Cardigan Amateur Boxing Club	28/06/2020	25,000	25,000
Goginan Community Association	28/06/2020	289	289
Cyngor Cymuned Llansantffraed	28/06/2020	2,992	0
Cae Chwarae Felinfach	28/06/2020	7,854	7854
Capel Soar y Mynydd	28/06/2020	1,185	0
		<b>63,475</b>	<b>37,407</b>

**Ceisiadau Newydd / New Applications**

Cardigan Squash Club	28/06/2020	24,908	12,279
Llanon Village Hall and Playing Fields	28/06/2020	1,956	1,956
Star of the Sea Culture CIC	28/06/2020	16,666	4,941
Hen Ysgol y Ferwig	22/09/2020	11,488	11175
Capel y Groes, Llanwnnen	22/09/2020	6,120	0
Cardigan Town Council	22/09/2020	11,562	11,562
RAY Ceredigion	25/02/2021	974	974
		<b>73,674</b>	<b>42,887</b>

**Grantiau trosglwyddwyd I / Grants transferred to 2021/2022**

St David's Church Blaenporth	19/03/2021	19,250	
Cyngor Cymuned Llansantffraed	19/03/2021	2,992	
Star of the Sea Culture CIC	19/03/2021	11,725	
Cardigan Squash Club	19/03/2021	12,629	
Capel y Groes, Llanwnnen	19/03/2021	6,120	
Capel Soar y Mynydd	19/03/2021	1,185	
		<b>53,901</b>	

# Tudalen 94

Atodiad 2 / Appendix 2

## Cynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion Community Grant Scheme

Grantiau Refeniw ystyriwyd / cymeradwywyd gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd neu Aelod Cabinet dros Wasanaethau Yr Economi ac Adfywio yn 2020/2021

Revenue Grants considered / approved by Corporate Lead Officer - Finance and Procurement in Consultation with the Cabinet Member with responsibility for Finance and Procurement Services and Public Protection or Cabinet Member for Economy and Regeneration in 2020/2021.

Ymgeisydd / Applicant	Dyddiad Cymeradwywyd / Date Approved	Grant £
<b>Papurau Bro</b>		
Papur Bro Y Barcud	22/09/2020	500
Papur Bro Clonc	22/09/2020	500
Papur Bro Y Tincer	22/09/2020	500
Papur Bro Y Ddolen	22/09/2020	500
Papur Bro Y Garthen	22/09/2020	500
		<b>2,500</b>

**CYNGOR SIR CEREDIGION****Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y Cyfarfod: 13 Gorffennaf 2021****Teitl: Trefniadau Ariannu Rhanbarthol****Pwrpas yr adroddiad: I'r Cabinet gymeradwyo'r egwyddorion Ariannu Rhanbarthol****Er: Cymeradwyaeth**

<b>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cyngorydd Alun Williams, Aelod o'r Cabinet - Porth Cynnal</b>	<b>Y Cyngorydd Catherine Hughes, Aelod o'r Cabinet - Porth Gofal, Cymorth Cynnar, Canolfannau Lles a Diwylliant</b>
---	--	---

Sefydlwyd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru i oruchwylio'r broses barhaus o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yn ardal Gorllewin Cymru. Mae'r Bartneriaeth yn dwyn ynghyd y tri awdurdod lleol yng Ngorllewin Cymru (Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Ceredigion a Chyngor Sir Penfro), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a chynrychiolwyr o'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i sefydlu i ateb gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae defnyddwyr gwasanaethau gofal a chymorth yn eistedd ar y Bwrdd hefyd, ynghyd â chynrychiolydd gofalwyr.

Mae Ceredigion wedi ymrwymo i weithio'n rhanbarthol ac mae'n gwerthfawrogi'r gwaith a'r prosiectau y gellir eu cyflawni drwy weithio mewn partneriaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru fel mecanwaith ar gyfer rheoli arian rhanbarthol i gefnogi mentrau a gwasanaethau sy'n rhanbarthol a lleol. Mae'r rhain yn cynnwys arian trawsnewid Cymru Iachach a'r Gronfa Gofal Integredig, ymhlith eraill.

Wrth ddyrannu cyllid i bartneriaid yn hanesyddol, defnyddiwyd fformiwla ariannu yn seiliedig ar boblogaeth ardaloedd y tri Awdurdod Lleol. Y ffigurau poblogaeth ar gyfer yr Awdurdodau Lleol hyn yn 2018 oedd:

- Ceredigion – 72,992
- Sir Benfro – 125,055
- Sir Gaerfyrddin – 187,568

O ganlyniad, rhannwyd y cyllid cyfan (100%) fel a ganlyn:

- Ceredigion – 20%
- Sir Benfro – 30%
- Sir Gaerfyrddin – 50%

Gall hyn fod yn her wrth ystyried ble mae'r meysydd angen a'r potensial ar gyfer datblygu, a gall swm yr arian sydd ar gael gyfyngu ar yr hyn a gyflawnir.

Hefyd cafwyd achosion diweddar lle cododd cyfleoedd i gydweithio'n rhanbarthol ond na chawsant eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn gofyn am ymrwymiad ariannol gan bob un o'r partneriaid. Weithiau roedd y rhain yn cynnwys y tri Awdurdod Lleol ac mewn eraill roeddent yn gyfleoedd amlasiantaethol (gan gynnwys y Bwrdd Iechyd ac, mewn rhai achosion eraill, asiantaethau megis yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf). Caiff amrywiaeth o opsiynau eu trafod yn fynych ynglŷn â sut i ariannu'r mentrau hyn. Weithiau gofynnir i Gyngor Sir Ceredigion weithredu'r fformiwla ariannu a nodir uchod, tra bod eraill yn gofyn am rannu'r cyfrifoldeb ariannol yn gyfartal, heb ystyried y boblogaeth na'r anghenion lleol.

Mae hyn yn creu sefyllfa lle codir tâl am gostau'r prosiectau rhanbarthol mewn ffordd sy'n wahanol i'r egwyddor a weithredir pan gaiff yr arian rhanbarthol ei ddsbarthu.

Mae'r papur hwn yn ceisio am gefnogaeth i weithredu'r fformiwla ariannu ranbarthol ar sail poblogaeth y tri Awdurdod Lleol, a hynny i bob menter a phrosiect rhanbarthol sy'n dod o dan Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Wedyn bydd mandad clir ar gyfer gweithredu'r fformiwla ar gyfer incwm a gwariant, a bydd hwn yn cael ei rannu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a bydd yn sicrhau eglurder ynghylch sut y bydd Ceredigion yn cyfrannu ac yn derbyn cyllid.

Er eglurder, os oes prosiectau sy'n cynnwys cyfraniadau gan sawl asiantaeth, disgwylir i'r fformiwla gael ei gweithredu yn ôl cyfanswm ymrwymiad y tri awdurdod lleol (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) ac nid yn ôl y swm cyfan.

Mae Rhwydwaith Cadeiryddion Cenedlaethol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi llunio papur fframwaith (ynghlwm er gwybodaeth) sy'n cynnig nifer o egwyddorion y teimlir y dylent fod yn sail i gam nesaf datblygu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r rhyngweithio parhaus rhwng y Llywodraeth a'r rhanbarthau. Mae'r papur yn atgyfnerthu'r angen ar i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael perchnogaeth dros benderfyniadau rhanbarthol ac is-ranbarthol. Drwy hyn byddwn yn symud i ffordd oddi wrth grantiau tymor byr, sydd erbyn hyn yn feichus ac yn dameidiog, i fodel ariannu mwy cynaliadwy gyda hyblygrwydd rhanbarthol yn sail iddo. Mae cyfres o gamau yn disgrifio sut y trosir yr egwyddorion yn gamau gweithredu, gan gynnwys datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd, proses gynllunio integredig genedlaethol, fformiwla ariannu ranbarthol ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chynllun pum mlynedd a adolygir yn flynyddol.

Mae'r papur yn cyd-fynd â'r negeseuon craidd a nodwyd yn ymateb y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'r Papur Gwyn 'Ailgydbwysu gofal a chymorth'.

**Llesiant  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol:**

**A oes Aseiad Effaith  
Integredig wedi ei wneud?  
Os na, esboniwch pam  
Crynodeb:  
Hirdymor:  
Cydweithio:  
Cynnwys:  
Atal:**

**Integreiddio:**

**Argymhellion:**

**Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo:**

- a) yr egwyddorion ariannu - fel y nodir yn yr adroddiad - ar gyfer yr holl waith rhanbarthol a gyflawnir drwy gyfrwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, fel a ganlyn:
- (i) gweithredu'r fformiwla ariannu ranbarthol ar sail poblogaeth y tri Awdurdod Lleol, a hynny i bob menter a phrosiect rhanbarthol sy'n dod o dan Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, o ran incwm a gwariant;
  - (ii) os oes prosiectau sy'n cynnwys cyfraniadau gan sawl asiantaeth, disgwylir i'r fformiwla gael ei gweithredu yn ôl cyfanswm ymrwymiad y tri awdurdod lleol (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) ac nid yn ôl y swm cyfan;
- b) rhoi pwerau dirprwyedig ar y cyd i:
- yr Aelod Cabinet Porth Cynnal,
  - yr Aelod Cabinet Porth Ceredigion, Cymorth Cynnar, Canolfannau Lles a Diwylliant a
  - y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal
- I wro oddi wrth y model y cyfeirir ato yn a) uchod, mewn amgylchiadau eithriadol, bydd y gwriad hwnnw'n cael ei adrodd i'r Cabinet wedi hynny.

**Rheswm dros y penderfyniad:** I ofyn am gymeradwyaeth i'r egwyddorion ariannu rhanbarthol i sicrhau trefniadau ariannu teg o ran incwm a gwariant.

**Trosolwg a Chraffu:** Dim. Bydd adroddiadau ynghylch prosiectau Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

**Fframwaith Polisi:**

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Blaenoriaethau Corfforaethol:**

- Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl
- Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd

## Tudalen 98

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** Cadarnhawyd y cynnig gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

**Goblygiadau Cyfreithiol:** Ddim yn berthnasol

**Goblygiadau Staffio:** Ddim yn berthnasol

**Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:** Ddim yn berthnasol

**Risg(iau):** Y byddai Cyngor Sir Ceredigion o dan anfantais o ran yr arian cyllid sydd ar gael yn y Rhanbarth.

**Pwerau Statudol:** Ddim yn berthnasol

**Papurau Cefndirol:** Dim

**Atodiadau:**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal

**Swyddog Adrodd:** Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal

**Dyddiad:** 8 Mehefin 2021

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y cyfarfod:** 13/07/2021

**Teitl:** Pennu Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol

**Pwrpas yr adroddiad:** Pennu ffioedd a argymhellir ar gyfer lleoliadau yng Nghartrefi Gofal Nyrsio Sector Annibynnol Ceredigion ar gyfer Pobl Hŷn ar gyfer 2021/22

**Er:** PENDERFYNIAD

**Portffolio'r Cabinet ac Y Cyngorydd Alun Williams – Porth Cynnal Aelod y Cabinet:**

**1. Cyflwyniad**

Ystyriwyd adroddiad yn y Cabinet ar 15/06/21 ynghylch Pennu Ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Phennu Ffioedd Cartrefi Gofal Nyrsio. Mae 11 Cartref Gofal Sector Annibynnol yng Ngheredigion, gyda 7 ohonynt yn Gartrefi Preswyl a 4 yn Gartrefi Nyrsio.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a chyngor arferion da wrth ystyried a phenderfynu pris teg am ofal yng nghartrefi Pobl Hŷn yng Ngheredigion.

Dywedodd canllawiau statudol Llywodraeth Cymru 2010 o'r enw 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, Fframwaith Comisiynu a Chanllawiau':

*Bydd yn rhaid i gomisiynwyr ystyried yr ystod lawn o alwadau arnynt hwy a'u blaenoriaethau strategol, yn ogystal â'r adnoddau sydd ar gael iddynt wrth ddatblygu eu strategaethau comisiynu.*

*Rhaid i'r gwaith o bennu ffioedd ystyried y costau dilys a wynebir gan ddarparwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn ogystal â'r ffactorau sy'n effeithio ar y costau hynny a'r potensial ar gyfer gwell perfformiad a ffyrdd mwy cost-effeithiol o weithredu. Mae angen i'r ffioedd fod yn ddigonol i alluogi darparwyr i fodloni'r fanyleb a bennir gan y Comisiynwyr ynghyd â gofynion rheoliadol.*

*Dylai comisiynwyr hefyd fod â rhesymeg i egluro eu dull o bennu ffioedd. Y prif bryder yw bod gwasanaethau'n gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol i hyrwyddo lles y bobl a'r gofalwyr a bodloni gofynion rheoliadol.*

Yn dilyn hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau pellach ar ffurf pecyn cymorth o'r enw 'Let's agree to agree'.

## **2. Cefndir**

Digwyddodd yr adolygiad manwl trylwyr blaenorol o Ffioedd Cartrefi Gofal fel rhan o'r broses Pennu Ffioedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Dechreuodd y broses honno ym mis Tachwedd 2017 ac, yn dilyn ymgynghoriad llawn â'r sector, daeth i ben ym mis Mai 2018. Roedd y dull gweithredu a gymerwyd yn fanwl ac yn cynnwys amryw dempledi yn ymwneud â data gwelyau llawn, Pwysau Costau Chwyddiant, costau staffio a dadansoddiad o gydrannau Costau.

Mae'r broses hon yn ddwys o ran defnyddio adnoddau ac nid yw'n realistig ymgymryd â hyn bob blwyddyn. Mae pecyn cymorth 'Let's Agree to Agree' Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyn ac yn awgrymu y dylid cynnal dadansoddiad llawnach o gostau bob 3 i 4 blynedd.

Ar gyfer 2019/20, gwnaed ymchwil ar fynegai Chwyddiant Tâl a Phrisiau Gwasanaethau Cymdeithasol Personol i Oedolion (a gynhyrchwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr) ac ymchwiliwyd iddo, a oedd yn cynnwys is-set Sector Annibynnol. Daethpwyd i'r casgliad, o gofio bod y prif gydrannau'n cyfateb i'r rheini sydd eisoes ym model pennu'r Ffioedd (e.e. Tâl, chwyddiant cyffredinol a Chost cyfalaf) a'u bod yn benodol i'r sector, fod hwn yn fesur chwyddiant rhesymol i'w ddefnyddio yn y blynyddoedd rhwng adolygiadau manwl trylwyr ac yn wir roedd yn fesur gwell na defnyddio Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Prisiau Defnyddwyr yn unig. Fel rhan o broses ymgynghori 2019/20 amlygwyd y newid gan Lywodraeth Cymru yn y terfyn Cyfalaf personol o £40,000 i £50,000 fel problem.

Felly ar gyfer 2019/20 cytunwyd ar godiad 4.0% ar y cyd – sef 3.5% yn deillio o'r mynegai Chwyddiant a 0.5% mewn perthynas â'r newid mewn terfynau cyfalaf. Cytunodd y Cyngor hefyd i newid yn y polisi sy'n ymwneud â'r cyfnod pan fydd taliad yn daladwy yn dilyn marwolaeth.

Ar gyfer 2020/21, cwtogodd pandemig COVID19 a oedd yn dod i'r amlwg y trafodaethau a oedd wedi cychwyn ar Bennu Ffioedd. Cydnabuwyd y cyhoeddiad hwyr gan Lywodraeth y DU o gynnydd 6.2% yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a ddaeth i rym o 01/04/21, felly defnyddiwyd mynegai Chwyddiant Costau Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel man cychwyn, ond cafodd ei addasu i ystyried y blaen-newid yn y Cyflog Byw.

Felly ar gyfer 2020/21 arweiniodd hyn at godiad 4.25%, y cytunwyd arno ar y cyd a chytunodd y Cyngor i weithredu hyn o 23/03/20 yn hytrach na 01/04/20.

## **3. Dull Gweithredu ar gyfer 2021/22**

Ar gyfer 2021/22, derbyniodd y Cyngor gynnydd o 2% yn ei gyllid gan Lywodraeth Cymru gan dderbyn y setliad tlotaf o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn wynebu pwysau cyllidebol ymhell dros 2% o hyd ac o hyd, felly mae'r Cyngor yn gweithredu o dan gyfyngiadau ariannol sylweddol.

Ers dechrau'r flwyddyn, mae cyfres o gyfarfodydd pennu Ffioedd wedi cael eu cynnal ar y cyd â'r holl Gartrefi Gofal. Mae'r broses eleni wedi bod yn un unigryw a hynod heriol i bob parti, oherwydd yr amgylchiadau y mae Cartrefi Gofal wedi



bod ac yn parhau i weithredu oddi tanynt, gyda phandemig COVID19 yn cael effaith sylweddol ar y sector.

Yn hanesyddol, ymdriniwyd â'r holl godiadau ar y cyd ar draws Cartrefi Nyrsio a Chartrefi Preswyl. Yn anffodus ar gyfer 2021/22, er y daethpwyd i gytundeb â'r Cartrefi Preswyl ar y Ffioedd Preswyl (gan arwain at gynnydd 6.4% ar gyfartaledd), ni fu'n bosibl dod i'r un cytundeb â'r Cartrefi Nyrsio.

Felly cynhaliwyd adolygiad ychwanegol o'r wybodaeth a roddwyd gan Gartrefi, er mwyn dod i ystyriaeth gytbwys derfynol o'r lefel briodol o Ffioedd Cartrefi Nyrsio ar gyfer 2021/22. Mae hyn wedi edrych ar bwysau allweddol a nodwyd gan Gartrefi Unigol o ran costau (sef Costau Staffio, Cyfleustodau ac Yswiriant yn bennaf) fel sail tystiolaeth – a gwnaeth ystyriaeth lawn ar gyfer cynnydd yn y meysydd penodol hyn (ar 15%, 15% a 100% yn y drefn honno) yn ogystal â lefel chwyddiant fwy nodweddiadol ar gyfer meysydd eraill. Adlewyrchwyd hyn i gyd mewn model elfen Cost fanwl wedi'i ddiweddarau, sy'n adlewyrchu (cyn belled ag y bo modd o fewn cyfyngiadau model ariannol) y gost o ddarparu safon y gofal a'r canlyniadau sy'n ofynnol ar gyfer y Defnyddwyr Gwasanaeth y mae'r Cyngor yn comisiynu lleoliadau ar eu gyfer.

Felly mae'r Cyngor wedi ystyried yn llawn yn fanwl ac wedi ailadrodd ei gynnig o ran Ffioedd dros gyfnod o amser ac mae'r sefyllfa derfynol a gyflwynir i'r Cartrefi Gofal Nyrsio, ar ôl yr ailadroddiad ychwanegol fel a ganlyn:

<b>Ffioedd fesul lleoliad yr wythnos</b>	<u>Nyrsio</u> <u>Cyffredinol</u>	<u>Nyrsio</u> <u>Dementia</u>
Ffioedd Presennol 2020/21	£617.00	£657.00
2021/22 Cynigiwyd o 05/04/21	£668.15	£711.48
<i>Cynnydd</i>	8.29%	8.29%

Mae'r sefyllfa hon hefyd bellach yn dyblu'r gwahaniaeth rhwng lleoliad mewn Cartref Nyrsio a lleoliad cyffredin mewn Cartref Preswyl o £12 yr wythnos i dros £24 yr wythnos.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth lawn a manwl i'r meysydd allweddol o bwysau cost a godwyd gan Gartrefi Unigol, sydd yn ei dro wedi llywio cyfrifiadau manwl yn uniongyrchol i gyrraedd y cynnydd o 8.29% mewn ffioedd.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal adolygiad fwy manwl o Ffioedd a'r model Costio yn barod ar gyfer 2022/23, a fydd wedyn yn 4 blynedd ers yr adolygiad manwl diwethaf. Bydd angen i hyn ddechrau ar ddiwedd yr haf er mwyn ei gwblhau mewn modd amserol a'r bwriad yw defnyddio pecyn cymorth Let's Agree to Agree Llywodraeth Cymru, er y gallai fod rhai manteision hefyd o weithio gyda'r Bwrdd Iechyd o ran Cartrefi Nyrsio a fydd hefyd yn cael ei drafod ymhellach.

O ran arian, bu cyllid dros dro ar gael o dan gynllun Gofal Cymdeithasol i Oedolion Llywodraeth Cymru COVID19, ac mae'n parhau i fod ar gael. Mae hyn ar ffurf taliadau premiwm dros dro £50 yr wythnos fesul lleoliad Cartref Gofal Preswyl a phremiwm ychwanegol arall £25 ar gyfer gofal nyrsio mewn Cartref Nyrsio a ariennir gan y GIG neu lleoliadau a ariennir ar y cyd. Yn ogystal, mae'r

gallu i bob Cartref Gofal gyflwyno hawliadau am arian i'r Cyngor ar gyfer costau Eithriadol ac Unedau Gwag (o fewn paramedrau penodol) sy'n deillio o COVID19. Ar adeg ysgrifennu hyn, mae hyn yn para hyd at 30/06/21, ond mae disgwyl i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ymestyn y cynllun ymhellach i 2021/22.

**4. Goblygiadau Ariannol**

Amcangyfrifir bod cost net blwyddyn lawn y Ffioedd arfaethedig yn £25k arall ar ben darpariaeth Cyllideb 2021/22 a wnaed yn ystod proses pennu'r Gyllideb ac yn ychwanegol at y £70k sy'n deillio o'r adroddiad pennu Ffioedd Cartrefi Preswyl.

**5. Canllawiau Statudol**

Ystyriwyd canllawiau statudol Llywodraeth Cymru wrth ymdrin â'r ymarfer pennu ffioedd. Mae hyn yn cynnwys yr angen i roi sylw dyledus i'r ffactorau lleol o ddarparu gofal (yn ogystal â chostau gwirioneddol), a'r effaith y bydd y penderfyniad yn ei chael ar ansawdd y gofal a ddarperir i breswylwyr, ac effaith costau cynyddol ar y darparwyr gofal.

**Oes Aseiad Effaith Integredig** Nac oes  
**wedi ei gwblhau? Os nad oes,**  
**dywedwch pam**  
**Crynodeb:** Ddim yn berthnasol  
**Hirdymor:**  
**Cydweithio:**  
**Cynnwys:**  
**Atal:**  
**Argymhelliad:** Bod y Ffioedd am Ofal Nyrsio yng Nghartrefi Sector Annibynnol Ceredigion yn cael eu cymeradwyo ar gyfer 2021/22 ar y lefelau wythnosol canlynol, mewn grym o 05/04/2021:

Nyrsio Cyffredinol	£668.15
Nyrsio Dementia	£711.48

**Rheswm dros y** Cytuno ar ffioedd a'u pennu ar gyfer 2021/22

**penderfyniad:**  
**Trosolwg a Chraffu:** Heb ei ystyried eto  
**Fframwaith Polisi:** Ffioedd a Chostau

**Blaenoriaethau** Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl, Galluogi Cydnerthedd  
**Corfforaethol:** Unigol a Theuluol

**Goblygiadau Cyllid a** Gweler yr adroddiad  
**Chaffael:**

**Goblygiadau** Dim  
**Cyfreithiol:**

**Goblygiadau staffio:** Dim

## Tudalen 105

<b>Goblygiadau eiddo / asedau:</b>	Dim
<b>Risg(iau):</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Her gan Ddarparwyr o broses annheg a lefel afresymol Ffioedd. Fodd bynnag, mae'r broses wedi rhoi ystyriaeth lawn a manwl i'r meysydd allweddol o bwysau costau a godwyd gan Gartrefi Unigol sydd wedi'u cydnabod yn llawn er mwyn sicrhau bod Ffioedd yn cael eu pennu ar lefel briodol sy'n gymesur â'r gost o gyflawni'r safonau gofal gofynnol ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth.</li><li>• Disgwylir yr adolygiad manwl rheolaidd 3 i 4 blynedd ar gyfer 2022/23, y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w gynnal. Mae risg bosibl y bydd yr adolygiad yn arwain at godiadau pellach sy'n uwch na chwyddiant.</li><li>• Her os na chaiff safonau a nodir yn arweiniad statudol Llywodraeth Cymru eu hystyried wrth ystyried pennu ffioedd.</li></ul>
<b>Pwerau Statudol:</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</li><li>• Canllawiau statudol Llywodraeth Cymru 2010 o'r enw 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, Fframwaith Comisiynu a Chanllawiau'</li></ul>
<b>Papurau Cefndir:</b>	Dim
<b>Atodiadau:</b>	Dim
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Sian Howys (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol) Stephen Johnson (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael)
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Duncan Hall (Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Gwasanaethau) George Ryley (Rheolwr Corfforaethol: Caffael)
<b>Dyddiad:</b>	28/06/21

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council****ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**DYDDIAD:****LLEOLIAD:****TEITL:****Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd  
CYSUR/CWMPAS  
Chwarter 4 2020/21****PWRPAS YR ADRODDIAD:** Monitro gweithgarwch ar sail amlasiantaethol o ran y camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion.**RHESWM Y MAE'R  
PWYLLGOR CRAFFU  
WEDI GOFYN AM YR  
WYBODAETH HON:**

Sicrhau bod aelodau'n monitro cynnydd yng nghyfarfodydd rheoli chwarterol Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS

**CEFNDIR:**

Amgaeir Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 4 2020/21.

Adroddiadau rheoli amlasiantaethol yw'r rhain ar ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2021. Darparant wybodaeth reoli ar y camau a gymerwyd o dan Ganllawiau Diogelu Cymru.

Mae'r Adroddiadau yn cynnwys yr wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu llesiant plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS (Ceredigion) yn trafod yr wybodaeth reoli hon er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn rhoi cyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

## **Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol:**

### **DIOGELU PLANT**

- Roedd ychydig o leihad yn nifer yr adroddiadau diogelu plant o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, ac roedd y rhifau ychydig yn is nag yn ystod yr un chwarter y flwyddyn flaenorol. Gyda'r cyfyngiadau'n cael eu llacio a'r ysgolion yn ailagor cafwyd twf yn nifer yr adroddiadau yn dilyn rhai lefelau adrodd ataliedig yn ystod y cyfnod clo.
- Yr Heddlu oedd y brif asiantaeth atgyfeirio yn ystod y chwarter hwn.
- Y pryderon pennaf syn arwain at gwblhau ymholiadau amddiffyn plant oedd honiadau am gam-drin corfforol a cham-drin rhywiol.
- Cafodd llai o Gynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant eu cynnal y chwarter hwn a chafodd pob un ei chynnal o fewn yr amserlen ofynnol.
- Mewn rhai achosion mae pryderon wedi cael eu huwch-gyfeirio i'r arena Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn uniongyrchol yn hytrach na chynnal cynhadledd oherwydd difrifoldeb y pryderon a'r angen am y camau gweithredu diogelu dan gyfarwyddyd y llys.
- Cafodd 65.7% o Gynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant eu cynnal yn ôl yr amserlen. Y rheswm am hyn oedd absenoldeb staff a blaenoriaethu'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant. Cafodd y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant eu haildrefnu cyn gynted â phosibl, a chafodd Cadeirydd Asiantaeth annibynnol ei benodi yn gynnar ym mis Chwefror.
- Y prif ffactorau risg a gofnodwyd oedd cam-drin domestig, rhieni'n gwahanu, rhieni'n camddefnyddio sylweddau ac anawsterau iechyd meddwl y rhieni.
- Lleihodd nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gan 17 o blant, cafodd 24 o blant eu datgofrestru, a dim ond 7 o blant gafodd eu cofrestru mewn Cynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.

### **DIOGELU OEDOLION**

- Bu cynnydd yn nifer yr oedolion yr adroddwyd eu bod mewn perygl ers Chwarter 3, gyda chynnydd o 117 o oedolion yn Chwarter 3 i 146 yn Chwarter 4 sy'n adlewyrchu'n fras nifer yr oedolion yr adroddwyd eu bod mewn perygl yn Chwarter 4 2019-2020. Yn ystod y cyfnod rhwng Chwarter 1 a diwedd Chwarter 3 roedd lleihad amlwg yn nifer yr oedolion mewn perygl a adroddwyd, ond bu cynnydd yn Chwarter 4. Mae'r ffigurau hyn i'w gweld yn adlewyrchu'r lleihad yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd pan oedd cyfyngiadau COVID wedi arwain at gyfnod clod, a bu cynnydd wedyn yn yr adroddiadau a dderbyniwyd pan ddechreuodd y cyfyngiadau gael eu codi.
- Mae nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd wedi cynyddu yn Chwarter 4 o'i gymharu â'r tri chwarter blaenorol gyda chynnydd sydyn yn nifer yr atgyfeiriadau ym mis Mawrth eleni, ac mae hyn yn debyg i'r cynnydd yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd ym mis Mawrth Chwarter 4 2019-2020. Mae'n ymddangos ein bod wedi dechrau dychwelyd i nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd cyn i bandemig COVID 19 ddechrau a chyn i'r cyfnod clo gael ei orfodi.

- Y Bwrdd Iechyd Lleol yw prif ffynhonnell adroddiadau yn Chwarter 4, wedi'i ddilyn gan asiantaethau Darparwr ac yna'r Heddlu, o'i gymharu â Chwarter 3 lle oedd yr Awdurdod Lleol yn brif ffynhonnell adroddiadau, wedi'i ddilyn gan yr Heddlu ac yna'r Bwrdd Iechyd Lleol. Y chwarter hwn, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan asiantaethau Darparwr o'i gymharu â'r chwarteri blaenorol.  
Y chwarter hwn derbyniwyd nifer cynyddol o adroddiadau mewn perthynas â phryderon mewn cartrefi gofal ac o ran cymorth gofal cartref, sef meysydd sydd dan bwysau, rheoli meddyginiaeth, achosion o ladrata gan staff gofal proffesiynol ac adroddiadau o bryderon am gamddefnyddio neu beidio â defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE).
- Cam-drin emosiynol/seicolegol yw'r math mwyaf cyffredin o gam-drin sy'n cael ei adrodd yn y chwarter hwn fel yn Chwarter 3, ac esgeulustod yw'r categori nesaf o gam-drin sydd â'r nifer fwyaf o adroddiadau gan ddilyn yr un patrwm â Chwarter 3 unwaith eto.
- Mae cynnydd yn nifer y benywod yr honnir eu bod yn cael eu cam-drin yn rhywiol y chwarter hwn ac mae'n ymddangos bod yr adroddiadau hyn syn rhai sy'n ymwneud â cham-drin domestig.
- Y chwarter hwn mae ychydig yn llai o adroddiadau oedd heb fynd ymlaen i ymholiad, ond mae nifer uchel o adroddiadau yn cael eu derbyn o hyd lle yr aseswyd nad oes angen ymholiad, ac mae angen ymchwilio ymhellach i hyn.
- Y chwarter hwn roedd nifer isel pellach o ymholiadau pan ddaethpwyd i'r casgliad bod angen gweithredu, h.y. roedd angen rhoi cynllun diogelu yn ei le. Roedd 6 yn unig yn y chwarter hwn, sef ychydig o leihad o 7 yn Chwarter 3, ond lleihad amlwg o'i gymharu â Chwarter 2 (23), Chwarter 1 (39) a Chwarter 4 2019-2020 (53).
- O'r 6 Chynllun Amddiffyn a roddwyd yn eu lle, cafodd 5 person eu diogelu yn eu cartrefi eu hunain, roedd angen diogelu 1 person mewn lleoliad gofal cartref, roedd angen i 1 person gael ei ddiogelu rhag gweithiwr â thâl, roedd angen i 2 gael eu diogelu rhag perthnasau/ffrind ac 1 ei ddiogelu rhag rhywun arall.

**A gwblhawyd Asesiad Effaith  
Integredig? Os naddo, esboniwch  
pam**

Naddo

***Crynodeb:***

Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir ar ddiogelu plant yng Ngheredigion.

**LLESIANT  
CENEDLAETHAU'R  
DYFODOL:**

**Hirdymor:**

Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol

# Tudalen 110

<b>Integreiddio:</b>	Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt
<b>Cydweithio:</b>	Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod
<b>Cynnwys:</b>	Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid
<b>Atal:</b>	Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu

## **ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol

## **RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner.

**Enw Cyswllt:** Siân Howys

**Swydd:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)

**Dyddiad yr Adroddiad:** 2 Mehefin 2021

### **Acronymau:**

CP – Amddiffyn Plant

CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant

Rhan 4 – Honiadau a wnaed yn erbyn aelod o staff neu'r rhai sy'n gweithio gyda phlant

e.e. – gofalwyr maeth, gwirfoddolwyr, cylchoedd chwarae at ati

CPCC – Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant

ICPC – Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant





# **GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR CEREDIGION**

**Adroddiad Rheoli Perfformiad**

**Chwarter: 4**

**1.1.21 – 31.3.21**

# Tudalen 112

Tudalen 2 o 39

<b>CYNNWYS:</b>	<b>TUDALEN</b>
ADRAN 1: Cyflwyniad	3
ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol	4
ADRAN 3: Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant	5
ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant	9
ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant	11
ADRAN 6: Y Gofrestr Amddiffyn Plant	19
ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn mewn Amgylchiadau Arbennig	22
ADRAN 8: Cyfarfodydd Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)	23
ADRAN 9: Adroddiad Cryno Blynyddol	24
ADRAN 10: Yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)	25
ADRAN 11: Gwasanaethau Dysgu	28
ADRAN 12: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	35
ADRAN 13: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS)	36
ADRAN 14: Diogelu Oedolion	

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2021. Mae'n darparu gwybodaeth rheoli perfformiad am y camau a gymerwyd i ddiogelu plant.

Mae'n cynnwys adroddiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid ynglŷn â diogelu a hybu llesiant plant yng Ngheredigion.

Mae'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir yn cael eu diffinio a'u hadrodd yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Ceredigion yn trafod yr wybodaeth reoli hon yn gyson er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau diogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn at:

Elizabeth Upcott  
Rheolwr Corfforaethol Diogelu  
[Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk](mailto:Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk)  
01545 574212

**ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol**

<b>Canlyniadau'r Atgyfeiriadau</b>	<b>Ion-Maw 2021</b>	<b>Hyd-Rhag 2020</b>	<b>Gorff-Medi 2020</b>	<b>Ebrill-Meh 2020</b>	<b>Ion-Maw 2020</b>
Adroddiadau / Atgyfeiriadau sy'n arwain at Drafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant	99	102	92	85	106
Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau trosglwyddo a chyn geni)	3	13	10	5	11
Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant Cyn Geni	-	1	2	2	-
Nifer y Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant	1	-	-	-	1
<b>Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys cynadleddau trosglwyddo a chyn geni)</b>	<b>4</b>	<b>14</b>	<b>12</b>	<b>7</b>	<b>12</b>
<b>Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol / Cyn Geni / Trosglwyddo</b>	<b>9</b>	<b>20</b>	<b>23</b>	<b>9</b>	<b>30</b>
Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau cyn geni a throsglwyddo)	4	15	18	7	23
Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni	-	1	2	2	-
Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill	3	-	-	-	3
<b>Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl Cynadleddau Cychwynnol</b>	<b>7</b>	<b>16</b>	<b>20</b>	<b>9</b>	<b>26</b>
Cyfanswm y plant na roddwyd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	2	4	3	-	4
<b>Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant</b>	<b>18</b>	<b>17</b>	<b>16</b>	<b>19</b>	<b>11</b>
<b>Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant</b>	<b>35</b>	<b>39</b>	<b>26</b>	<b>42</b>	<b>15</b>
<b>Cyfanswm y plant sy'n dal ar y Gofrestr Amddiffyn Plant</b>	<b>11</b>	<b>18</b>	<b>11</b>	<b>24</b>	<b>9</b>
Cyfanswm y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	24	21	15	18	6

**Dadansoddiad:**

Roedd ychydig o leihad yn nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at weithredu o dan Ganllawiau Diogelu Cymru yn ystod y chwarter hwn, ac mae ychydig yn is nag yn ystod y chwarter hwn y flwyddyn flaenorol. Canran y plant a drafodwyd mewn cynadleddau adolygu ac a gafodd eu datgofrestru oedd 69%.

**ADRAN 3: Adroddiadau ac Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant**

Mae Argymhelliad 39 Ymchwiliad Victoria Climbié yn ei gwneud hi'n ofynnol i staff ar y rheng flaen drosglwyddo ymholiadau am ddiogelwch a llesiant plant i'r tîm priodol yn ddi-oed ac o fewn yr awr. Yng Ngheredigion mae'r Porth Gofal yn derbyn ac yn cofnodi pob galwad gan y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau ac yn eu trosglwyddo i'r Tîm Asesu a Chymorth i Blant a Theuluoedd.



Mae'r tabl canlynol yn dangos lefel cydymffurfio â'r argymhelliad:

Lefel	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 1 awr	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2 awr	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2-5 awr	Cyfanswm
<b>Ionawr</b>				
1	76	14	22	112
2	59	19	6	84
3	89	18	3	110
4	33	3	0	36
5	0	0	0	0
Lefel	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 1 awr	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2 awr	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2-5 awr	Cyfanswm
<b>Chwefror</b>				
1	72	6	20	98
2	61	7	11	79
3	44	9	10	63
4	32	1	1	34
5	1	0	0	1
Lefel	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 1 awr	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2 awr	Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2-5 awr	Cyfanswm
<b>Mawrth</b>				
1	68	21	24	113
2	61	21	13	95
3	68	14	9	91
4	48	12	1	61
5	5	0	0	5

## Tudalen 116

Tudalen 6 o 39

<b>Ffynonellau'r Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a'r nifer a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth</b>					
<b>Cysylltwyd gan</b>	<b>Ionawr</b>	<b>Chwefror</b>	<b>Mawrth</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Data cymharol chwarter 3</b>
Yr Heddlu	12	17	16	<b>45</b>	<b>57</b>
Gwasanaethau Cymdeithasol Mewnol	8	5	7	<b>20</b>	<b>5</b>
Addysg	3	4	6	<b>13</b>	<b>23</b>
Perthynas/frind/aelod o'r gymuned	2	1	2	<b>5</b>	<b>4</b>
Awdurdod Lleol Arall	4	-	1	<b>5</b>	<b>4</b>
Iechyd	-	2	2	<b>4</b>	<b>7</b>
Asiantaethau Gwirfoddol	1	-	2	<b>3</b>	<b>1</b>
Arall	1	2	-	<b>3</b>	<b>1</b>
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWF)	-	-	1	<b>1</b>	-
Gwasanaeth Prawf / Cwmni Adsefydlu Cymunedol	-	-	-	-	-
CAFCASS	-	-	-	-	-
Meddyg Teulu	-	-	-	-	-
Gwasanaeth Ieuencid	-	-	-	-	-
Adrodd am eu hunan	-	-	-	-	-
Tai	-	-	-	-	-
Ymddiriedolaeth Ambiwlans Gorllewin Cymru (WAST)	-	-	-	-	-
<b>Cyfanswm</b>	<b>31</b>	<b>31</b>	<b>37</b>	<b>99</b>	<b>102</b>




**Dadansoddiad:**

Daeth y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau oddi wrth yr Heddlu yn ystod y chwarter hwn a bu gostyngiad yng nghyfradd yr ysgolion er gwaetha'r ffaith iddynt ailagor ar ddechrau'r chwarter hwn.

**Cyfeiriadau Post yr Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth Rhan 3**

Tref Agosaf yn y Cyfeiriad Post	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Cyfanswm	Data cymharol chwarter 3
Aberystwyth	11	16	12	39	56
Aberteifi	5	5	9	19	4
Llanbedr Pont Steffan	5	4	5	14	15
Aberaeron	3	1	3	7	4
Llandysul	4	--	2	6	8
Cei Newydd	-	1	3	4	5
Castellnewydd Emlyn (Ceredigion)	-	3	1	4	4
Sir arall	2	-	2	4	1
Aber-porth	1	1	-	2	2
Tregaron	-	-	-	-	3
Arall	-	-	-	-	-
<b>Cyfanswm yr Atgyfeiriadau</b>	<b>31</b>	<b>31</b>	<b>37</b>	<b>99</b>	<b>102</b>

**Cyfeiriadau Post yr Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth Rhan 3 (99)  
Chwarter 4 2020/2021**



**Dadansoddiad:**

Aberystwyth yw'r ardal lle y ceir y nifer uchaf o atgyfeiriadau yn gyson.




# Tudalen 119

Tudalen 9 o 39

<b>Dadansoddiad yn ôl % o Weithgarwch Diogelu Chwarter 4 2020/2021 (1 Ionawr – 31 Mawrth)</b>			
Cyfanswm o 982 – Yr Holl Gysylltiadau Cychwynnol ynghylch Plant			
Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol (NAET) a neilltuwyd i'r Timau Plant – Dim gwybodaeth ar gael	Trafodaethau Strategaeth 10%	Ymholiadau Adran 47 5%	Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant 1%

**ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant**


<b>Nifer y Trafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant Rhan 3</b>					
<b>Ionawr</b>	<b>Chwefror</b>	<b>Mawrth</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Data cymharol chwarter 3</b>	
31 (40)	31 (25)	37 (37)	99	102	
<b>Asiantaethau sy'n cynnal Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant</b>					
	<b>Ionawr</b>	<b>Chwefror</b>	<b>Mawrth</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Data cymharol chwarter 3</b>
Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu	14	12	12	<b>38</b>	<b>38</b>
Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel un asiantaeth	4	-	-	<b>4</b>	<b>2</b>
Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant gan yr Heddlu fel un asiantaeth	-	-	3	<b>3</b>	<b>10</b>
<b>Cyfanswm yr Ymholiadau</b>	<b>18</b>	<b>12</b>	<b>15</b>	<b>45</b>	<b>50</b>



# Tudalen 121

Tudalen 11 o 39

Categoriâu'r Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant					
Categori	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Cyfanswm	Data cymharol Chwarter 3
Cam-drin Corfforol	5	4	8	17	24
Cam-drin / Camfanteisio'n Rhywiol	4	6	6	16	23
Esgeulustod	5	2	1	8	2
Cam-drin Emosiynol	4	-	-	4	1
<b>Cyfanswm yr Ymholiadau</b>	<b>18</b>	<b>12</b>	<b>15</b>	<b>45</b>	<b>50</b>



Cyfweiliadau Fideo					
	Ion	Chwe	Maw	Cyfanswm	Data cymharol Chwarter 3
<b>Nifer y cyfweiliadau fideo â phlant</b>	-	-	-	-	-

## Dadansoddiad:

Y pryderon mwyaf a arweiniodd at gynnal ymholiadau amddiffyn plant oedd honiadau am gam-drin corfforol a cham-drin rhywiol.

Cynhaliwyd y mwyafrif o'r ymholiadau ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant.


**ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant**

Mae'r tabl hwn yn cynnwys ffigurau wedi'u dadansoddi mewn perthynas â Chanlyniadau Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant					
Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant	Nifer y plant	Nifer y plant heb eu geni	Nifer y teuluoedd	Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gan gynnwys rhai heb eu geni a rhai a drosglwyddwyd	Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth os na chofrestrwyd
4	9	-	4	7	2

**Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**

Cofnodwyd bod 100.0% o'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl y Drafodaeth / Cyfarfod Strategaeth.

Mae'n bwysig nodi bod yr holl Gynadleddau Adolygu Achos a Chynadleddau Cychwynnol yn cael eu cynnal yn rhithiol trwy Microsoft Teams. Bu modd i rieni a phlant gymryd rhan yn y cyfarfodydd.




# Tudalen 123

Tudalen 13 o 39

## Cyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:

Cofnodwyd bod 50.0% o Gyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant. Mae hyn yn cynrychioli 2 blentyn allan o 4. Ar gyfer 1 teulu gyda 2 blentyn roedd oedi oherwydd argaeledd gweithwyr proffesiynol.



## Mae'r tabl hwn yn dadansoddi canlyniadau'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn ôl niferoedd:


Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant	Nifer y plant	Nifer y teuluoedd	Nifer y plant sy'n aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y plant a gafodd eu dileu o'r Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth yn dilyn datgofrestru
18	35	18	11	24	17

## Canlyniadau'r Adolygiadau:

O'r 24 o blant a ddatgofrestrwyd, derbyniodd 17 ymyrraeth bellach drwy Gynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth; roedd 5 yn destun Gorchymyn Llys ac yn Blant sy'n Derbyn Gofal ac nid oedd angen unrhyw wasanaethau ar 2 blentyn arall.

## Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:

Cofnodwyd bod 65.7% o'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn y terfynau amser. Ar gyfer 3 theulu gyda 2 blentyn a 6 phlentyn unigol arall cynhaliwyd y Cynadleddau y tu allan i'r amserlenni oherwydd absenoldeb salwch y Cadeirydd Annibynnol a blaenoriaethu Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant. Ail-drefnwyd y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant i'w cynnal cyn gynted â phosibl yn dilyn penodi Cadeirydd Annibynnol yr Asiantaeth yn gynnar ym mis Chwefror; roedd y Cynadleddau Adolygu yn 35 diwrnod yn hwyr ar gyfartaledd, gyda 7 o'r plant a adolygwyd wedi'u datgofrestru yn eu Cynhadledd Adolygu 3 mis cyntaf.



### Cyfranogiad rhieni a phlant mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant

\*Data cymharol Chwarter 3 mewn cromfachau

*Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithaso I i rieni 24 awr cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	*Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r teulu cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	*Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r plentyn cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	*Aelod o'r teulu yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	*Cyfleu barn plant mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant pan nad oeddent yn bresennol (5-18 oed)	*Presenoldeb plant yn y Cynhadledd Amddiffyn Plant (Dros 11 oed)	*Plant y penodwyd Eiriolwr / Tros Gynnal ar eu cyfer
100% (87%)	100% (96%)	80% (60%)	100% (94%)	91% (91%)	42% (21%)	76% (75%)

### Cyfranogiad a Phresenoldeb Plant a Theuluoedd mewn Cynadleddau:

#### Presenoldeb rhieni, plant ac aelodau'r teulu:

Roedd o leiaf 1 rhiant / taid neu nain â chyfrifoldeb rhieni yn bresennol mewn 22 Cynhadledd Amddiffyn Plant (100%).

Roedd cyfanswm o 38 o rieni ac aelodau eraill o'r teulu yn bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant.

#### Mae barn y plant a'r bobl ifanc wedi cael eu cynrychioli cyn ac yn ystod y Gynhadledd Amddiffyn Plant:

Roedd cyfanswm o 44 o blant o 22 o deuluoedd yn destun Cynadleddau Cychwynnol, Cyn Geni, Trosglwyddo ac Adolygu Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter hwn.

Yn destun y cynadleddau hynny oedd 0 (0%) plentyn cyn geni, 3 (7%) phlentyn oedd yn iau na 6 mis oed, 4 (9%) plentyn oedd rhwng 6 a 12 mis oed, 9 (21%) plentyn oedd yn hŷn na blwydd oed ac yn iau na 5 oed, 16 (36%) plentyn oedd rhwng 5 a 10 mlwydd oed, a 12 (27%) plentyn oedd rhwng 11 a 18 mlwydd oed.

Mynegwyd barn 14 (88%) plentyn a oedd rhwng 5 ac 11 mlwydd oed yn y Gynhadledd.

Roedd 5 (42%) person ifanc yn hŷn nag 11 mlwydd oed wedi mynychu eu Cynhadledd, roedd 4 (80%) o'r bobl ifanc hyn wedi cwrdd â'r Cadeirydd cyn y Gynhadledd; nid oedd y Cadeirydd wedi

# Tudalen 125

## Tudalen 15 o 39

cwrdd ag unrhyw un o'r bobl ifanc hyn ar ôl y Gynhadledd. Cafodd barn pob un o'r 7 (100%) person ifanc oedd heb fynychu'r Cynadleddau ei chynrychioli yn y Gynhadledd.

Derbyniodd 19 (76%) o'r bobl ifanc a oedd yn hŷn na 5 mlwydd oed wasanaethau eiriolwr, cafodd 6 arall eu hatgyfeirio am wasanaeth ond nid oedd y rhieni yn ymgysylltu ar y pryd. Cafodd 3 pherson ifanc arall eu hatgyfeirio ond roeddent wedi gwrthod y gwasanaeth.

### Dadansoddiad

Mae o leiaf 1 aelod o'r teulu yn bresennol yn 100% o'r Cynadleddau.


Cafodd Gwasanaeth Eiriolaeth ei gynbig i bob plentyn 5 oed a hŷn a drafodwyd mewn Cynhadledd yn ystod y cyfnod hwn, ond yn anffodus nid oedd rhieni 6 o blant yn ymgysylltu'n dda ar y pryd, ac felly ni chafodd y plant y gwasanaeth. Cafodd 3 pherson ifanc eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Eiriolaeth, ond roeddent wedi gwrthod y cynbig, felly cawsant eu dileu o'r hafaliad.

<b>Crynodeb o'r Peryglon Pennaf/Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a nodwyd ac a drafodwyd yn y Cynadleddau Amddiffyn Plant</b>	
Mae'r tabl hwn yn seiliedig ar werthusiad y Cadeirydd Annibynnol o'r peryglon pennaf mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant lle rhoddwyd enwau'r plant dan sylw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a Chynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant lle roedd enwau'r plant yn aros ar y gofrestr.	
<b>Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 29 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Mawrth 2021</b>	
Cam-drin Domestig (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	25 (86.2%)
Rhieni'n gwahanu wedi bod yn broblem yn y cartref (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	21 (72.4%)
Rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	20 (68.9%)
Anawsterau iechyd meddwl y rhieni (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	15 (51.7%)
Troseddau treisgar gan oedolion	14 (48.3%)
Rhieni ddim yn cydweithredu â'r Cynllun Amddiffyn Plant	14 (48.3%)
Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant	8 (27.6%)
Person ifanc yn ymddwyn mewn ffyrdd peryglus / yn camddefnyddio sylweddau	6 (20.7%)
Mam, tad neu bartner wedi bod yn y carchar (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	5 (17.2%)
Camau cyfreithiol wedi'u cymryd i ddiogelu plant hŷn yn y teulu	3 (10.3%)
Troseddau gan oedolion yn erbyn plant	1 (3.4%)
Anableddau dysgu'r rhieni	0 (0%)

# Tudalen 126

Tudalen 16 o 39

## Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 29 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Mawrth 2021





# Tudalen 127


Tudalen 17 o 39

Y Tri Pherygl Pennaf Gwenwynig ar gyfer y 29 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Mawrth 2021		
Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r Tri Pherygl Gwenwynig yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl y Rhieni)	10	34.5%
Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae Rhieni'n Gwahanu a / neu Garchariad yn ymddangos (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	22	75.9%
Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r pum Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl y Rhieni, Rhieni'n Gwahanu a Charchariad)	4	13.8%

## Dadansoddiad:



Y peryglon pennaf a nodwyd oedd cam-drin domestig, rhieni'n gwahanu, rhieni'n camddefnyddio sylweddau ac anawsterau iechyd meddwl y rhieni.

## Presenoldeb Asiantaethau mewn Cynadleddau:



# Tudalen 128

Tudalen 18 o 39



Mae'r siartiau uchod yn dangos yr asiantaethau a fu'n bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant. Ar gyfartaledd estynnwyd gwahoddiad i 6 aelod o staff asiantaethau i bob cynhadledd a bu 3 yn bresennol.

Roedd 5 adroddiad ysgrifenedig ar gyfartaledd ar gael ym mhob Cynhadledd Amddiffyn Plant. Trefnwyd dyddiad ar gyfer Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant ym mhob cynhadledd pan oedd ei angen.

Roedd cworwm ymhob un o'r 44 (100%) Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Adroddiad Rheoli Perfformiad 1/1//21 – 31/3/21

# Tudalen 129

## Tudalen 19 o 39

Mewn 3 (14%) Cynhadledd Amddiffyn Plant argymhellwyd galw cyfarfod Grŵp Teulu.

Darparodd Gweithwyr Cymdeithasol adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer pob un o'r 22 (100%) cynhadledd. Roedd 1 (25%) o'r adroddiadau a gyflwynwyd mewn Cynadleddau Cychwynnol yn cynnwys cronoleg.

Mynegodd 22 (100%) o weithwyr proffesiynol / asiantaethau eu barn am gofrestru a lefel y perygl ymhob cynhadledd.

Roedd 40 (91%) o benderfyniadau cofrestru Cynhadledd Amddiffyn Plant yn ddiennw gyda 4 (9%) o gofrestriadau Cynhadledd Amddiffyn Plant yn benderfyniad mwyafrif.

Roedd 1 (2%) Cynhadledd Amddiffyn Plant wedi nodi bod anghytuno ynghylch diogelwch y Cynllun Amddiffyn Plant ar gyfer diogelu llesiant plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Mewn 0 (0%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gofalwr ifanc.

Mewn 1 (4%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod diffyg gwybodaeth ynghylch partner y fam.

Mewn 2 (9%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anabledd dysgu cymedrol / difrifol; ac mewn 4 (18%) cynhadledd nodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Datblygu Unigol.

Mewn 1 (4%) Gynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd gan y person ifanc anabledd corfforol / nam ar y synhwyrâu, ac mewn 0 (0%) nodwyd bod gan y person ifanc broblemau ymddygiad.


Mewn 4 (18%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anawsterau lleferydd / iaith ac ni chofnodwyd mewn unrhyw gynhadledd (0%) bod y plant wedi'u gwahardd o'r ysgol.

## ADRAN 6: Cofrestr Amddiffyn Plant

Mae'r tabl a'r siart isod yn dangos data a thueddiadau'r Gofrestr ar ddiwedd pob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf.

Y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y plant o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y teuluoedd o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y plant wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y teuluoedd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Cyfanswm y plant wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Cyfanswm y teuluoedd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Cyfanswm y plant o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd yn Blant sy'n Derbyn Gofal
31 Mawrth 2021	29	16	12	6	41	22	5
31 Rhagfyr 2020	46	24	7	5	53	29	5
30 Medi 2020	50	22	4	3	54	25	1
30 Mehefin 2020	46	24	4	2	50	26	4
31 Mawrth 2020	55	26	10	4	65	30	2
31 Rhagfyr 2019	35	20	12	5	47	25	3
30 Medi 2019	52	27	7	3	59	30	4
30 Mehefin 2019	55	31	10	5	65	36	3
31 Mawrth 2019	74	40	4	3	78	44	5
31 Rhagfyr 2018	53	32	2	2	55	34	4
30 Medi 2018	58	36	9	7	67	43	3
30 Mehefin 2018	54	31	9	6	63	37	6




Tueddiadau'r Gofrestr Amddiffyn Plant



Maw 31 2019 Meh 30 2019 Medi 30 2019 Rhag 31 2019 Maw 31 2020 Meh 30 2020 Medi 30 2020 Rhag 31 2020 Maw 31 2021

# Tudalen 131

Tudalen 21 o 39



# Tudalen 132

Tudalen 22 o 39

## Mesur 28 Llywodraeth Cymru – Yr amser ar gyfartaledd y bu pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:

Ar gyfer y Mesur hwn mae'n ofynnol rhoi'r amser ar gyfartaledd mewn diwrnodau calendr y treuliodd pob plentyn ar y Gofrestr cyn eu datgofrestru yn ystod y chwarter dan sylw	Ionawr-Mawrth	244.1
--	---------------	-------

	Ion-Maw 2021	Hyd-Rhag 2020	Gorff-Medi 2020	Ebrill-Meh 2020	Ion-Maw 2020	Hyd-Rhag 2019	Gorff-Medi 2019	Ebrill-Meh 2019	Ion-Maw 2019
<b>Cyfradd y 10,000 o blant o dan 18 oed</b>	23	36	39	36	42	27	40	42	57

## Mesur 27 Llywodraeth Cymru – Nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol o fewn y flwyddyn

Cynadleddau Cychwynnol	Ion-Maw 2021	Hyd-Rhag 2020	Gorff-Medi 2020	Ebrill-Meh 2020	Ion-Maw 2020	Hyd-Rhag 2019	Gorff-Medi 2019	Ebrill-Meh 2019
Nifer y plant a fu ar y gofrestr o'r blaen ac a ddatgofrestrwyd dros y 12 mis diwethaf	0	0	0	0	0	1	5	1

### Dadansoddiad

Roedd lleihad sylweddol yn nifer y plant ar y Gofrestr yn ystod y cyfnod hwn. Datgofrestrwyd 24 o blant oedd yn cynnwys 1 teulu gyda 5 o blant, 1 teulu gyda 4 o blant, 1 teulu gyda 3 o blant, 4 teulu gyda 2 o blant a 4 teulu gydag un plentyn. Fodd bynnag, cafodd 7 o blant eu cofrestru mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant. Roedd nifer y plant yn y teuluoedd hyn yn cynnwys 1 teulu gyda 3 o blant a 2 deulu gyda 2 o blant.

Mae'r mwyafrif o blant ar y Gofrestr oherwydd cam-drin emosiynol ac esgeulustod sy'n adlewyrchu'r ffaith mai cam-drin domestig yw un o'r peryglon pennaf.

Mae'r mwyafrif o blant ar y Gofrestr am gyfnod o hyd at 6 mis.

Mae mwy o ferched na bechgyn ar y Gofrestr erbyn hyn.

Y categori oedran sy'n parhau â'r nifer fwyaf ar y Gofrestr yw plant 10-15 mlwydd oed.

## ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o dan Rannau 4 a 5 o Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Atgyfeiriwyd 21 o blant a chynhaliwyd cyfanswm o 31 o gyfarfodydd strategaeth yn ystod y chwarter.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Strategaeth ar gyfer 2 Blentyn sy'n Derbyn Gofal o Geredigion ac 1 Plentyn sy'n Derbyn Gofal o Awdurdod Lleol arall.

Adroddwyd bod 1 Plentyn sy'n Derbyn Gofal o Geredigion sydd wedi'i leoli y tu allan i'r sir wedi bod yn destun Ymholiadau Amddiffyn Plant yn ardal y lleoliad.

<b>Categori o Gyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant (Amgylchiadau Penodol)</b>	<b>Ionawr Cyfarfodydd a gynhaliwyd</b>	<b>Chwefror Cyfarfodydd a gynhaliwyd</b>	<b>Mawrth Cyfarfodydd a gynhaliwyd</b>	<b>Cyfanswm yr achosion</b>
Perygl o gamfanteisio ar blentyn	5	5	4	11
Pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol	1	0	2	2
Pryderon ynghylch person ifanc yn mynd ar goll o'r cartref	1	1	2	4
Pryderon Proffesiynol	3	2	5	9
<b>Cyfanswm y cyfarfodydd</b>	<b>10</b>	<b>8</b>	<b>13</b>	
<b>Cyfanswm yr achosion a drafodwyd yn ystod y chwarter dan sylw</b>				<b>26</b>

### ADRAN 8: Cyfarfodydd Rheoli Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)

Achos Newydd / Adolygu	Ymadael / Aros yn MACSE	Gwryw / Benyw	Oedran	Yn y cartref /mewn gofal	Cofrestr Amddiffyn Plant	Dyddiad y cyfarfod	Presenoldeb Asiantaethau
A	A	B	16	C	le	12.02.21	CFAST, Coleg, Yr Heddlu, YJPS
A	Y	B	14	C	le	02.03.21	CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, lechyd
A	Y	B	15	G	Na	16.03.21	CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu
N	A	B	13	C	Na	06.01.21	CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, TAF, lechyd
N	Y	B	17	C	Na	06.01.21	CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu
N	A	B	16	C	Na	08.01.21	CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, YJPS, lechyd
N	A	B	13	C	Na	08.01.21	CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu
N	A	G	17	C	Na	14.01.21	CFAST, Yr Heddlu, YJPS, Coleg, Tai
N	A	G	15	C	Na	09.02.21	CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, YJPS, TAF
N	Y	B	17	C	Na	12.02.21	CFAST, Yr Heddlu, Coleg
N	A	B	16	C	le	05.03.21	CFAST, Yr Heddlu, CAMHS, Barod
N	A	B	15	C	Na	12.03.21	CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, lechyd, TPA
N	A	G	15	C	Na	24.03.21	CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, lechyd, YJPS, TAF

Daeth 10 achos newydd i'r cyfarfodydd MACE yn ystod Chwarter 4 a 3 achos i'w hadolygu. O'r rhain, roedd 10 yn fenywod rhwng 13-17 mlwydd oed ac roedd 3 yn wrywod rhwng 15 ac 17 mlwydd oed ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.



**ADRAN 9: Adroddiad Cryno Blynyddol**

<b>1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021</b>		
<b>Cyfarfodydd/Trafodaethau Strategaeth Amddiffyn Plant</b>		Data cymharol ar gyfer y flwyddyn flaenorol
Cyfarfodydd / Trafodaethau Strategaeth	378	335
Cyfarfodydd Strategaeth (Rhan 4 a 5)	105	70
<b>Canlyniadau Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant</b>		
Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau trosglwyddo a chyn geni)	31	31
Cynadleddau Cychwynnol Cyn-geni Amddiffyn Plant	5	-
Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant	1	2
Cyfanswm Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys cynadleddau trosglwyddo a chyn-geni)	37	33
Cyfanswm y plant a gafodd eu trafod mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant	61	69
Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (gan gynnwys adeg eu geni)	52	61
Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant heb eu cofrestru	9	8
Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant lle roedd plant ar y Gofrestr yn flaenorol ond wedi cael eu datgofrestru o fewn y 12 mis diwethaf	0	7
<b>Canlyniadau Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant</b>		
Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant	70	82
Cyfanswm y plant a adolygwyd	142	151
Enwau wedi'u datgofrestru o'r Gofrestr AP	78	81
<b>Nifer y Plant a'r Teuluoedd sy'n destun Cynadleddau Amddiffyn Plant</b>		
Nifer y Plant	115	142
Nifer y Teuluoedd	59	72

**ADRAN 10: Adroddiad yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol  
Asesu Risg (MARAC)**

DRAFT

DRAFFET

DRAFFET

**ADRAN 11: Gwasanaethau Dysgu****ADRODDIAD LOG GWASANAETHAU YSGOLION****BWLIO**

Mae data bwlio yn parhau i gael eu casglu yn dymhorol ym mhob cyfarfod Corff Llywodraethu ysgolion. Gweler isod y data a gasglwyd yn nhymor yr Gwanwyn 2021 a gasglwyd yn ystod y tymor blaenorol sef tymor yr Hydref 2020.

<b>Math o Fwlio</b>	<b>Gwanwyn 2020</b>	<b>Haf 2020</b>	<b>Hydref 2020</b>
Gallu	2	2	1
Oedran	1	0	0
Edrychiad	8	5	5
Bioffobig	0	0	0
Anabledd	0	1	0
Rhyw	2	0	0
Homoffobig	0	0	0
Plentyn syn Derbyn Gofal	0	0	0
Anneuaidd	0	0	0
Beichiogrwydd neu Famolaeth	0	0	0
Hiliol	2	0	3
Crefydd neu Gred	0	0	0
Rhywiol	0	0	0
Trawsffobig	0	0	0
Gofalwr Ifanc	0	0	0
E-ddiogelwch	7	1	1
Eraill	21	1	8
<b>Cyfanswm</b>	<b>43</b>	<b>10</b>	<b>18</b>

# Tudalen 140

## Tudalen 30 o 39

Mae gwrthdaro rhwng ffrindiau hefyd wedi cael ei gynnwys yng nghofnodion ysgolion. Ni fyddai'r mathau hyn o ymddygiad wedi'u cynnwys fel arfer o fewn y diffiniad o fwlio, fodd bynnag mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn eu cofnodi o dan y categori 'arall' yn eu ffurflen adborth.

### HYFFORDDIANT

Mae hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant lefel 1 ar gael fel rhaglen e-ddysgu yn unig a dyma nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod cyfnod chwarter 4. Yn ogystal, mae nifer y staff sydd wedi cwblhau lefel 2 Amddiffyn Plant yn rhithiol yn ystod y cyfnod hwn wedi'i nodi isod.

Lefel 1	360
Lefel 2	132 (93 staff CSC / 39 allanol)

### VAWDASV

Mae 90 aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant VAWDASV ar-lein yn ystod cyfnod chwarter 4.

### GWEMINAR HYRWYDDO SEFYDLOGRWYDD TEULUOEDD AC ANSAWDD PERTHNASOEDD

Ar ddydd Iau 25 Mawrth, cynhaliwyd y gweminar uchod yn rhithiol ar gyfer staff Ceredigion. Roedd yn ddull amlasiantaethol, gan weithio ar y cyd â Billy Goodfellow (Tim Teulu), Kizzie Garner-Hughes (Gwasanaethau Plant/Addysg), Michelle Pooley (WWDAS) ac Emma Williams (cyfreithiwr cyfraith teulu). Nod y sesiwn oedd:

- Cyflwyno ffocws ar sefydlogrwydd teuluoedd ac ansawdd perthnasoedd
- Rhoi cyfle i ymarferwyr gydnabod a blaenoriaethu sgysiau am anawsterau perthnasoedd
- Cynnig modd i ymarferwyr gael mynediad at gyfryngu, cwnsela parau neu gymorth arall
- Dysgu am anghenion plant a sut y mae gwrthdaro rhwng rhieni yn effeithio ar ateb yr anghenion hynny

I gychwyn bwriadwyd ei gynnal ym Mawrth 2020 ond cafodd ei ohirio oherwydd Covid. Y rheswm y tu ôl i adnabod yr angen i gyflwyno'r wybodaeth hon oedd oherwydd y nifer uchel o broblemau sy'n codi a'u nodi mewn perthynas â gwrthdaro rhieni, ac effaith hyn ar leoliadau ysgol ac asiantaethau cymorth i deuluoedd ac ati. Roedd Michelle Pooley hefyd wedi archwilio gyda chyfranogwyr y gwahaniaeth rhwng gwrthdaro ac ymddygiad camdriniol.

Roedd 20 o bobl wedi mynychu'r digwyddiad a oedd yn sesiwn bore yn unig. Roedd y gynulleidfa yn cynnwys staff ysgol, swyddogion cynhwysiant a gweithwyr cymorth i deuluoedd. Cafwyd adborth cadarnhaol.

# Tudalen 141

Tudalen 31 o 39

## ADDYSG DDEWISOL GARTREF

<b>Nifer y blant rydych yn ymwybodol ohonynt sydd yn cael eu haddysgu'n ddewisol gartref</b>	<b>Nifer y plant Addysg Ddewisol Gartref sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol sydd wedi cael cynnig ymweliad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf</b>	<b>Canlyniad</b>
258	80	Cyfarfodydd rhithiol/galwadau ffôn – 41 Wedi gwrthod – 21 Dim ymateb -18 – yn cael ei ystyried ar gyfer ymweliad gartref / llythyr wedi'i anfon i gael diweddariad ar y ddarpariaeth addysg

## PLANT MEWN GOFAL



Plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion o oedran ysgol statudol	Ionawr – 42 Chwefror – 43 Mawrth – 45
Plant sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan o'r Sir o oedran ysgol statudol	Ionawr – 13 Chwefror – 13 Mawrth – 13
Plant sy'n derbyn gofal o Awdurdodau Lleol eraill o oedran ysgol statudol	Ionawr – 34 Chwefror – 35 Mawrth – 37

## CYSYLLTIADAU YSGOLION

Gweler isod, nifer a natur y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ysgolion / sefydliadau dysgu

# Tudalen 142



Tudalen 32 o 39






# Tudalen 143

Tudalen 33 o 39



# Tudalen 144

Tudalen 34 o 39



Oherwydd y nifer fawr o resymau a roddwyd ar gyfer cysylltu, mae rhai wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y nodir isod er mwyn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn fwy eglur ar y siart.


Arfau	
Cais am wybodaeth	
Cam-drin Domestig	
Corfforol	
E-ddiogelwch	Gan gynnwys camddefnydd ffonau symudol/rhyngwyd. Anfon negeseuon/lluniau/fideos anweddus.
Esgeulustod	Gan gynnwys amodau'r cartref, problemau ariannol a goruchwyliaeth
Gofal	
Iechyd a Diogelwch	
Iechyd Meddwl Disgyblion	Gan gynnwys cam-drin emosiynol.
Iechyd Meddwl Rhieni	
Lles	Gan gynnwys plant sydd ar goll, presenoldeb, tor-berthynas, gofalywyr ifanc, anawsterau cysylltu yn ystod y cyfnod clo, problemau cysylltu rhwng rhieni.
Materion Cyfreithiol	
Atal	
Rhywiol	Gan gynnwys perthnasoedd amhriodol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.
Sylweddau Disgyblion	Gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
Sylweddau Rhieni	Gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Adroddiad Rheoli Perfformiad 1/1//21 – 31/3/21

# Tudalen 145

Tudalen 35 o 39

Materion Traws	
Ymddygiad Disgybl	
Ymddygiad Rhiant	Gan gynnwys rhieni yn y carchar
Ymddygiad Staff	Gan gynnwys unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch ymddygiad aelod staff ysgolion a/neu sydd yn gysylltiedig ag ysgolion Ceredigion.



**ADRAN 12: Iechyd**



DRAFFET

**ADRAN 13: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r  
Glasoed (S-CAMHS)**

DRAFFET

# **GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR CEREDIGION**

**Adroddiad Rheoli Perfformiad – Diogelu Oedolion**

**Chwarter: 4**

**1.1.21 – 31.3.21**

<b>Adroddiad Cryno Blynyddol Amddiffyn Oedolion</b>	
Nifer y Cyfarfodydd Trafod Strategaeth	121
Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol Oedolion	31
Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Adolygu Oedolion	21
Nifer y Cyfarfodydd Pryderon Proffesiynol	34
Nifer y Cyfarfodydd Pellach Pryderon Proffesiynol	9

Maer dudalen yn wag yn fwriadol